# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 20FED CHWEFROR, 2025**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**IwanEdwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 12 Chwefror 2025)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (16)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | Rheinallt Puw |
| Linda Ann Jones | Linda Morgan |
| Gwynfor Owen | Meryl Roberts |
| Einir Wyn Williams | Jina Gwyrfai |
| John Pughe | Sian Williams |
| (Sedd wag) | (Sedd wag) |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Anwen J. Davies |
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| Angela Russell | |

## Llafur.Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd
Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Y Cynghorydd Menna Trenholme
Y Cynghorydd Paul John Rowlinson

# R H A G L E N

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024-25

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Nodi unryyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION 4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 21 Tachwedd 2024, fel rhai cywir.

## 6. AROLYGAETH GOFAL CYMRU A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU ARCHWILIAD AR Y CYD - HYDREF 2024 14 - 51

I gyflwyno canfyddiadau yr archwiliad ac ymateb y Cyngor i'r Pwyllgor

## 7. CWESTIYNAU AR GYFER PRIF WEITHREDWR, CADEIRYDD A RHEOLWR ARDAL Y BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR 52 - 53

Cwestiynau i'w gofyn i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**21/11/24**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:**
Beth Lawton (Cadeirydd), Anwen Jane Davies, Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Elwyn Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Morgan, Gareth Coj Parry, John Pughe, Meryl Roberts, Angela Russell a Einir Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:**
Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Hedd Tomos (Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo), Gareth Wyn Parri (Arweinydd Tîm Comisiynu), Sion Hughes (Cyfarwyddwr Polisi a Chyflawni, Cymdeithas Dai Adra), Claire Shiland (Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Tai Gogledd Cymru), Melville Evans (Prif Weithredwr, Grŵp Cynefin) ac Edward Hughes (Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chymorth, Tai Clwyd Alyn).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines a Rheinallt Puw.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Gareth Coj Parry am eu bod yn denantiaid Tai Cymdeithasol. Nid oedd y buddiant yn un a oedd yn rhagfarnu felly ni adawsant y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2024 fel rhai cywir.

**5. Y MAES TAI CYMDEITHASOL**

**(a) I Ystyried yr adroddiad ar y Maes Tai Cymdeithaol**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Adran Tai ac Eiddo. Eglurwyd bod gwahoddiad wedi ei estyn i'r cymdeithasau tai sy'n weithredol yng Ngwynedd sef Adra, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru i ymuno â'r cyfarfod i ateb cwestiynau'r Aelodau ynglŷn â gweithrediad y Polisi Gosod Tai. Nodwyd fod y Polisi Gosod wedi ei graffu ddwywaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cychwynnwyd y drafodaeth gan ofyn a yw'n bosib derbyn canran o'r holl osodiadau tai o'r sampl o 200 o geisiadau oedd wedi ei gymryd gan yr Adran Dai. Cadarnhawyd fod y ganran oddeutu rhwng 15-20%. Nodwyd fod y ceisiadau wedi eu dewis ar hap a bod

gwaith manwl wedi dilyn i weld beth oedd cysylltiad lleol unigolion a'u cysylltiad efo'r gymuned ble cawsant yr eiddo cymdeithasol. Credwyd fod y ffigyrau a dynnwyd o'r sampl yn dangos patrwm clir ac yn rhoid sicrwydd a hygrededd i'r gwaith a gwblhawyd. Ychwanegwyd bod 95% sy'n gymwys yn y categori Cysylltiad Gwynedd yno oherwydd preswyliad ac mai nifer fach ydi'r gweddill e.e. i ddarparu neu dderbyn cymorth gan berson neu ddarpariaeth yng Ngwynedd a gofynnir i hyn gael ei dystiolaethu. Ychwanegwyd y gall yr Adran Dai ddarparu'r union ffigwr i'r Aelodau.

Gofynnwyd beth yw'r amser disgwyl ar gyfer byngalos yn ardal Gwynedd a Meirionydd gan bwysleisio eu pwysigrwydd wrth ryddhau tai i deuluoedd sydd wir eu hangen.

- Nodwyd nad oedd y ffigyrau galw ar gyfer byngalos ar gael heddiw ond y byddai'r Adran Dai yn casglu'r wybodaeth yma a'n ei ddarparu i'r Aelodau, yn ogystal â rhestr o niferoedd y byngalos sydd gan y cymdeithasau tai fel bod cymhariaeth rhwng y galw a'r cyflenwad.

Nodwyd fod rhestr aros tai cymdeithasol Gwynedd yn faith a gofynnwyd pam nad yw rhagor o dai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu.

- Mewn ymateb i'r cwestiwn, esboniwyd fod gan Wynedd gynlluniau datblygu tai cymdeithasol ar y cyd sydd yn lewyrchus ac sy'n cael ei gydnabod fel cynllun llwyddiannus. Nodwyd fod £50 miliwn yn cael ei wario pob blwyddyn ar adeiladu tai cymdeithasol yng Ngwynedd. Cydnabuwyd fod y nifer o dai sydd yn bosib i'w adeiladu yn ddibynnol ar gyllid ac argaeledd tiroedd. Gobeithiwyd y bydd y Polisi Datblygu Lleol yn mynd i'r afael a'r cyfyngiadau yma ac y bydd rhagor o gyllideb ar gael gan y Llywodraeth.

O ran digartrefedd yng Ngwynedd, nodwyd fod y Cynllun Gweithredu Tai werth £180 miliwn a bod canran sylweddol o'r arian yma wedi'i neilltuo ar gyfer adeiladu ac ail bwrpasu tai ar gyfer anghenion digartrefedd. Ar ben hynny, nodwyd fod oddeutu 88 o unedau cefnogol yn cael ei adeiladu yng Ngwynedd ar hyn o bryd gyda'r gobaith o allu tynnu pobl allan o lety argyfwng anaddas. Cydnabuwyd bod yr argyfwng tai yn parhau a bod yr Adran Dai yn ceisio cyfarch yr holl anghenion tai.

Mewn ymateb i gwestiwn am faint sydd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol ar hyn o bryd, nodwyd bod o gwmpas 2,000-2,500 o geisiadau ar y gofrestr. Ychwanegwyd fod y rhestr aros wedi bod yn sefydlog efo'r niferoedd yma ers y degawd diwethaf felly nid oes pwysau cynyddol diweddar wedi bod. Pwysleisiwyd mai nid unigolion yw'r rhain ond ceisiadau am uned. Adroddwyd ei bod yn bosib derbyn y ffigwr o ran unigolion os yw'r Aelodau yn dymuno ei dderbyn. Ychwanegwyd er bod y ffigyrau yn sefydlog bod yr anghenion yn uwch ac yn fwy cymhleth a bod cynlluniau ar y gweill er mwyn ymateb i'r anghenion.

O ran ardaloedd penodol a'r anghenion tai ar lefel lleol, nodwyd ei bod yn bosib darganfod y ffigyrau ar gyfer y wardiau yng Ngwynedd ar wefan Cyngor Gwynedd. Cynigiwyd darparu linc i ran berthnasol o'r wefan. Nodwyd bod y data yn cael ei dynnu allan o'r system yn gyfnodol felly ei fod yn gyfoes a dibynadwy.

- Gofynnwyd i'r Adran Dai wirio'r linc hwn sydd i'w weld ar y Fewnrwyd Aelodau i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio gan fod problem wedi bod efo'r linc.

Mewn ymateb i gwestiwn am y niferoedd sy'n ddigartref yng Ngwynedd, nodwyd bod y ffigyrau o gwmpas 500-600 ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod y cyswllt lleol i Wynedd hefyd yn berthnasol ar gyfer cyflwyno'n ddigartref a bod rhaid cydnabod y cyswllt lleol â'r ardal cyn derbyn person yn ddigartref yn y Sir. Ychwanegwyd bod rhai eithriadau yn bodoli e.e. unigolion sydd yn ffoi trais. Nodwyd gall yr Adran Dai ddarparu'r union ffigwr am y niferoedd sy'n ddigartref a'r cysylltiad i Wynedd i'r Aelodau; mynegwyd awydd i dderbyn y wybodaeth yma. Pwysleisiwyd bod y term digartref yn golygu pobl sy'n cysgu ar

soffa ffrindiau neu deuluoedd neu'n aros mewn llety gwely a brecwast ac nid yn cysgu ar y strydoedd.

Mynegwyd pryder bod Llywodraeth Cymru ddim yn hoffi'r pwyslais ar gysylltiad lleol sydd ym Mholisi Gosod Gwynedd a gofynnwyd pa reolaeth sydd gan y Llywodraeth dros Bolisi Gosod Gwynedd.

- Mewn ymateb cytunwyd bod Gwynedd yn blaenoriaethu pobl leol o fewn y Polisi Gosod. Nodwyd ei bod yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno papur gwyn ar ddigartrefedd ac fe all hynny gal effaith ar bwy all gyflwyno yn ddigartref yng Ngwynedd ac o ganlyniad gall effeithio ar y Polisi Gosod. Nodwyd y bydd yn rhaid aros i weld beth fydd yr effaith gan fod y gofynion newydd heb eu cadarnhau eto a gobeithir gwybod mwy dros y 12 mis nesaf. Atgoffwyd yr Aelodau o'r bwriad i ddod 'nôl i'r Pwyllgor Craffu Gofal i graffu'r Polisi Gosod bryd hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn am y broses o geisio am eiddo cymdeithasol, eglurwyd mai un ffurflen gais ac un Polisi Gosod sydd yn bodoli ers 2012 pan sefydlwyd y Tîm Opsiynau Tai. Esboniwyd yn dilyn hynny fod y broses o ymgeisio wedi ei chanoli. Nodwyd nad oes bellach cyfyngiad ar niferoedd yr ardaloedd gall ymgeiswyr eu dewis i fod yn gymwys am eiddo; gall ymgeiswyr nodi 1 ardal yn unig os mai hynny yw eu dymuniad neu gallent nodi 20 o ardaloedd. Pwysleisiwyd bod gofyn i unigolion flaenoriaethu a bod risg i unigolion gael eu cosbi os ydynt yn gwrthod cynnig o eiddo mewn ardal oedd yn un o'u dewisiadau.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â'r weithdrefn ar ôl i bobl gael eu cynnwys ar y rhestr aros am dai cymdeithasol yng Ngwynedd. Amlygwyd fod y ceisiadau unigol sydd ar y rhestr yn cael ei blaenoriaethu yn unol â'r Polisi Gosod. Eglurwyd nad rôl y Cyngor yw archwilio cefndir tenantiaid ond i asesu eu hanghenion. Nodwyd bod y Tîm Opsiynau Tai yn creu rhestr aros yn unol â blaenoriaethau'r Polisi. Esboniwyd mai'r cymdeithasau tai sydd yn gwneud y gwaith dilynol o arwyddo'r denantiaeth ar ôl i unigolyn dderbyn cynnig ac yn gwneud y gwaith fforddiadwyedd a sefydlu'r berthynas efo'r tenant newydd.

Gofynnwyd a yw'n bosib cael sicrwydd fod cymorth a chefnogaeth ddilynol ar gael i unigolion sydd wedi cyflwyno'n ddigartref tra maent yn aros mewn llety gwely a brecwast, yn benodol am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn ag iechyd meddwl.

- Mewn ymateb, nodwyd fod cefnogaeth lawn yn cael ei rhoi i unigolion sydd yn cyflwyno yn ddigartref os ydynt angen y gefnogaeth. Cyfeirwyd at y swyddogion penodol o fewn y tîm digartrefedd sydd yn ymdrin â materion iechyd meddwl gan nodi fod y gefnogaeth yn parhau drwy'r arhosiad yn y llety argyfwng.

O ran Tai Teg, holwyd pwy yw'r landlord a pwy sy'n cynnal a chadw'r tai yma. Holwyd hefyd am y tai mae'r Cyngor yn eu prynnu fel tai rhent ac am fwy o esboniad am y tai hyn. Yn ychwanegol gofynnwyd beth yw barn yr Adran Dai ar gyfnewid tai.

- Mewn ymateb nodwyd fod y cymdeithasau tai a'r Cyngor yn defnyddio Tai Teg a'i fod yn system sydd yn cael ei redeg i osod tai canolraddol ar ran y cymdeithasau tai ac yn eistedd dan Grŵp Cynefin.
- Amlygwyd bod y Cyngor hefyd yn prynnu tai canolraddol a bod Adra fel un o bartneriaid y Cyngor yn rheoli'r adeilad a'r denantiaeth ond fod y Cyngor yn derbyn elfen o'r rhent. Ymhelaethwyd mai Cyngor Gwynedd ydi perchnogion y tai yma ond bod rheolaeth o'r tai wedi eu trosglwyddo i Adra am gyfnod penodol. Cadarnhawyd bod dwy restr sef rhestr tai cymdeithasol a rhestr Tai Canolraddol (Tai Teg).
- O ran barn yr Adran Dai ar gyfnewid tai cymdeithasol, adroddwyd nad oes gan yr Adran farn am gyfnewid tai gan ei fod yn gyfraith ac felly does dim dewis. Mae deddf statudol yn caniatáu'r hawl i denantiaid gyfnewid efo unrhyw denant eiddo cymdeithasaol arall yng Nghymru neu Lloegr ac nid oes hawl gwrthod y cyfnewid heb reswm da.

Gofynnwyd faint sydd ar y rhestr Tai Teg. Nododd y Pennaeth Tai ac Eiddo y byddai modd anfon y wybodaeth yno i'r Aelodau. Ategwyd y pwysigrwydd o godi ymwybyddiaeth am y rhestr Tai Teg a'r tai canolraddol.

Mewn ymateb i gwestiwn ar bwy oedd yn gwneud y penderfyniad terfynol o bwy fyddai yn derbyn eiddo, eglurwyd mai pwrpas y Polisi Gosod yw osgoi penderfyniad terfynol gan swyddog. Ymhelaethwyd trwy ddilyn y Polisi bod rhestr yn cael ei greu ar sail blaenroliaethau a'r disgwyliad yw yn y cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a'r cymdeithasau tai yw bod y rhestr hwnnw yn cael ei didlyn. Eglurwyd weithiau bydd eithriadau prin pan fo tenant sydd ar dop y rhestr ddim yn gwbl addas ar gyfer eiddo penodol; bryd hynny fydd sgyrsiau yn cael eu cynnal rhwng y Cyngor a'r cymdeithasau tai.

- Gofynnwyd a oes proses fonitro i weld pa mor fychain yw'r eithriadau hyn. Adroddwyd bod y data yno ar gael a bod cyfarfodydd parhaus ar lefel gweithredol a strategol ble bydd yr eithriadau hyn yn cael eu trafod. Cytunwyd i'r Adran Dai wneud darn o waith a rhannu'r wybodaeth yma am yr eithriadau ('by-passes') efo'r Aelodau.

**(b) Cwestiynau i'w gofyn i'r Cymdeithasau Tai (Adra, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru)**

Croesawyd cynrychiolwyr y cymdeithasau tai i'r cyfarfod. Rhedwyd drwy'r cwestiynau oedd wedi eu gofyn i'r cymdeithasau tai yn y drefn sy'n ymddangos ar Raglen y Pwyllgor gan roi cyfle i gynrychiolwyr y cymdeithasau tai ymateb a'r Aelodau i holi cwestiynau pellach.

<u>Gweithredu'r Polisi Gosod Tai</u>
Esboniwyd bod y cymdeithasau tai yn gweithio mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd a bod y cymdeithasau tai wedi bod yn rhan o lunio'r Polisi Gosod Tai cyfredol nol yn 2019 efo'r Cyngor ac yn cyd-ariannu'r gwasanaeth Opsiynau Tai. Nodwyd bod cymdeithas dai Adra yn gosod 95% o'u heiddo drwy'r Polisi Gosod a bod y 5% arall yn cael eu gosod drwy drosglwyddiadau rheoli mewnol oherwydd rhesymau megis tan-feddiannu neu'r angen am addasiadau. Ategwyd hefyd bod canran fach o denantiaethau yn cychwyn oherwydd hawl olyniaeth, sy'n hawl cyfreithiol.

Ychwanegodd Tai Gogledd Cymru eu bod nhw efo unedau Tai Cefnogol yng Ngwynedd ac yn achlysurol byddent yn gwneud trosglwyddiad rheoli mewnol i symud tenant o'r Tai Cefnogol i eiddo cymdeithasol heb fynd drwy'r gofrestr tai. Nodwyd fod hyn yn digwydd pan mae tenant yn barod i symud ymlaen o'r eiddo Cefnogol ac o ganlyniad yn rhyddhau lle yn yr eiddo Cefnogol i rywun sydd angen y ddarpariaeth yma. Soniwyd am eithriadau eraill ble bydd gosodiadau yn cael eu gwneud tu allan i'r Polisi e.e. risg i fywyd oherwydd trais domestig.
Ategwyd y sylwadau gan yr holl gymdeithasau tai bod y Polisi Gosod yn cael ei weithredu'n llawn a bod yna berthynas weithio gonest a tryloyw rhwng y Cyngor a'r cymdeithasau tai.

<u>Rhestr Aros</u>
Mynegwyd mai eithriadau prin yw'r ceisiadau i wahardd rhai pobl oddi ar y rhestr aros. Tynnwyd sylw at ran 3.47 o'r Polisi Gosod sy'n adnabod pam y byddai person yn cael ei wahardd o'r gofrestr e.e. ymddygiad troseddol hanesyddol neu wedi ymosod ar aelod o staff y gymdeithas dai, yn ogystal ag ymddygiad gwrthgymdeithasol dwys a cham drin yr eiddo. Eglurwyd bod modd hefyd atal ymgeiswyr ar sail dros dro o'r gofrestr dai ac mai hyn yw mwyafrif yr achosion o gymharu â'r niferoedd sy'n cael eu gwahardd yn barhaol.

Adroddwyd bod y cymdeithasau tai fel arfer yn cynnig eiddo i enwebiad cyntaf yr Awdurdod Lleol; ond os yn methu oherwydd rheswm dilys e.e. mater lleol yn ymwneud â gosodiad penodol, bydd y rheswm yma yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Lleol a bydd

trafodaethau yn digwydd cyn dod i gytundeb. Pwysleiswiyd bod achosion fel hyn yn brin iawn. Ategwyd y sylw gan ychwanegu rhai rhesymau dros beidio a cynnig i'r ymgeisydd cyntaf ar y rhestr ('by-pass') er enghraifft y gefnogaeth anghenrheidiol ddim yno ar gyfer tenant a'r gymdogaeth ehangach ddim am weithio. Nodwyd bod asesiad risg o'r denantiaeth yn cael ei chynnal a bydd y cymdeithasau tai yn gwneud gwaith cefndirol. Ychwanegwyd bod y cymdeithasau tai yn ceisio sicrhau tenantiaethau cynlialadwy fyddai'n galluogi'r tenantiaid i setlo yn y gymuned.

Mewn ymateb i sylw bod y Cymdeithasau Tai yn tanseilio gwaith da drwy newid y rhestr, pwysleisiwyd bod hyn yn eithriadau sy'n cael ei gwneud am y rhesymau iawn e.e. rhesymau fforddiadwyedd yn ogystal â'r rai a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau bod y tenant yn cael eiddo sy'n addas ar eu cyfer.

Ychwanegodd yr Arweinydd Tîm Comisiynu nad oedd y 'by-passes' i fod i ddigwydd ond cydnabuwyd ei fod yn anorfod ar rai achlysuron pan fo rhesymau dilys. Nododd fod y rhestr sy'n cael ei gynhyrchu gan y Tîm Opsiynau Tai yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Polisi Gosod ond fod trafodaethau a sgyrsiau adeiladol yn digwydd pe bai anghytundeb a bod hyn yn adlewyrchiad o'r berthynas agos rhwng y Cyngor a'r cymdeithasau tai. Cydnabuwyd bod pryder ar adegau oherwydd disgwyliad fod y Polisi'n cael ei ddilyn ond fod angen cydnabod bod gwahaniaethau rhwng sefydliadau gwahanol a bod anghytuno yn mynd i ddigwydd yn achlysurol. Adroddwyd bod y Tîm Opsiynau Tai yn monitro pan fo hyn yn digwydd. Nodwyd y gall yr Aelodau weld maint y problem pan fyddent wedi derbyn y data gan yr Adran Dai.

Gofynnwyd am farn y cymdeithasau tai ar y Papur Gwyn gan y Llywodraeth gan fynegi pryder y bydd y Papur Gwyn yn cael effaith ar osodiadau lleol a'r flaenoriaeth sy'n cael ei roi yng Ngwynedd i gysylltiadau lleol.

- Mewn ymateb nid oedd y cymdeithasau tai yn poeni'n ormodol oherwydd bod y Polisi Gosod lleol mewn lle sy'n sicrhau bod pobl Gwynedd yn cael blaenoriaeth. Ychwanegwyd pan ddaw'r Papur Gwyn terfynol a pan fydd hi'n amserol i adolygu, bydd y cymdeithasau tai yn gwneud hynny ar y cyd ac mewn partneriaeth efo'r Cyngor.

Mynegwyd awydd i'r cymdeithasau tai fod yn trafod gosodiadau, yn enwedig safleoedd newydd, efo'r Aelodau lleol fel eu bod yr Aelodau yn gallu annog i bobl gofrestru a rhoi eu henwau ymlaen o fewn eu wardiau. Credwyd y bydd trafodaethau o'r fath yn osgoi drwg deimlad o fewn y gymuned.

<u>Cyfnewid Tai</u>
Nodwyd bod tenantiaid y cymdeithasau tai efo Cytundeb Meddiannaeth Ddiogel sy'n golygu bod ganddynt yr hawl i gyfnewid eiddo. Ymhelaethwyd bod gan y cymdeithasau tai hawl i wrthod mewn rhai achosion e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol, eiddo wedi ei addasu neu'r cyfnewidiad yn mynd i achosi tan-feddiannu. Esboniwyd y broses ble bydd cais yn cael ei dderbyn yna'r gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau. Darparwyr ystadegau megis bod 50 o gyfnewidiadau wedi digwydd yng nghymdeithas Dai Adra yn flwyddyn ddiwethaf, sef 25 achos o gyd-gyfnewid. Nodwyd bod 46 o'r rhain wedi bod o fewn stoc Adra ac yng Ngwynedd. Nodwyd bod 1 achos yng Nghonwy a 3 achos yn bellach i ffwrdd. Eglurwyd bod gan denantiaid y cymdeithasau tai hawl cyfreithiol i wneud hyn.

Adroddwyd patrwm tebyg gan Grŵp Cynefin efo 20 o gyfnewidiadau wedi cymryd lle dros y 3 mlynedd ddiwethaf gyda'r mwyafrif o fewn y Sir a 2 o'r tu allan. Cadarnhawyd mai 2 oedd niferoedd cyfnewidiadau Tai Goledd Cymru o few Gwynedd. Nodwyd gall y cymdeithasau tai wrthod pan fo cytundeb lleol (s106) ar yr eiddo sy'n golygu blaenoriaeth i bobl leol am yr eiddo; gallant wrthod dan Ddeddf Rhentu Cartrefi a gweithio oddi fewn y fframwaith cyfreithiol hwn.

Gofynnwyd am eglurhad pellach ar ddata Adra. Mynegwyd bod ffigwr y cyfnewidiadau yn 135 am y dair mlynedd ddiwethaf yn Adra ac yn 50 ers mis Tachwedd 2023. Gnwethwpyd sylw bod cyfnewidiadau yn gweithio'n dda i lawer o denantiaid ac yn gallu bod o fudd.

Mynegwyd pryder gan yr Aelodau am gyfnewidiadau tu allan i Gymru a gofynnwyd a oes modd rhoi stop ar y cyfnewidiadau hyn. Ategwyd mai penderfyniad y Llywodraeth ydyw ac nad oes gan y cymdeithasau tai hawl i wrthod heb reswm dilys. Awgrymwyd cynnwys cymal yn y Polisi Gosod yn nodi'r angen i denantiaid gyfathrebu efo'r cymdeithasau tai fel cam cychwynnol a cheisio cyfnewid yn lleol. Credwyd bod lle i annog tenantiaid i symud o fewn eu cymunedau.

<u>Cymorth i denantiaid, tan feddiannu a digartrefedd</u>
Cydnabuwyd bod tan-feddiannu yn broblem gan na ellir gorfodi tenantiaid i adael eu cartrefi ond eglurwyd bod gan y cymdeithasau tai gymhellion i geisio annog tenantiaid i symud i eiddo llai e.e. help efo costau symud. Esboniwyd yr heriau megis tenantiaid ddim eisiau gadael, ac os yw'r tenantiaid yn gallu ymdopi a fforddio eu cartref presennol ni all y cymdeithasau tai eu gorfodi i symud. Eglurwyd bod Grŵp Cynefin yn edrych ar greu Polisi er mwyn cyfarch yr heriau sydd o gwmpas tan-feddiannu.

Esboniwyd mai 13 mlynedd yw hyd cyfartalog tenantiaeth gan gymdeithas tai Adra a bod yr eiddo yn gartref i unigolion felly gellir deall pam fod llawer yn amharod i symud. Adroddwyd bod y cymdeithasau tai yn ceisio gwireddu cynlluniau sydd yn annog tenantiaid i symud megis Stad Frondeg, Pwllheli neu Blas Penrhos, Penrhosgarnedd. Adroddwyd bod yr adeiladau newydd hyn yn rhoi cymhelliant i denantiaid symud ac yn targedu tan-feddiannu mewn ardaloedd penodol sy'n help i ryddhau eiddo. Amlygwyd nad yw'r dreth llofft sbâr yn effeithio ar bensiynwyr yng Nghymru.

Ychwanegwyd bod cefnogeth yn cael ei ddarparu gan y cymdeithasau tai er mwyn atal digartrefedd gan y Swyddogion Cefnogi Tenantiaid neu Swyddogion Lles sydd yn aml yn ymweld â thenantiaid bregus ac yn asesu pa mor gynialadwy ydi'r denantiaeth. Eglurwyd bod cynogr ariannol yn cael ei ddarparu a chymorth i denantiaid gynnal eu tenantiaethau. Eglurwyd bod cyd-weithio agos efo'r Cyngor yn enwedig y gwasanaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn hanfodol er mwyn cefnogi tenantiaid, yn ogystal a gwasanaethau uniongyrchol gan y cymdeithasau tai megis y gwasanaeth Gorwel gan Grŵp Cynefin. Cydnabuwyd efallai bod lle i allu gwneud mwy ond bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda ar hyn o bryd a credwyd bod y cymdeithasau tai yn llwyddo i gyfarch anghenion tenantiethau.

Ymhelaethwyd am y gwasanaeth cymorth costau ynni a gwresogi sy'n cael ei ddarparu ar y cyd rhwng rhai o'r cymdeithasau tai er mwyn cyfarch yr heriau sy'n wynebu eu tenantiaid. Mynegwyd bod gan y cymdeithasau tai gronfa sylweddol i helpu tenantiaid efo costau byw.

Ychwanegwyd mai dadfeddiant yw'r opsiwn olaf a bod cymorth a chyngor wastad yn cael ei gynnig cyn cyrraedd y cam yno. Pwysleisiwyd bod amser ac ymdrech yn cael ei roi i gydweithio efo tenantiaid er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu aros yn eu tenantiaethau.

Gofynnwyd i'r Adran Dai ddarparu ffigurau tan-feddiannu i'r Aelodau.

- Mynegodd yr Arweinydd Tîm Comisiynu bod tan-feddiannu o fewn y stoc tai cymdeithasol yn flaenoriaeth o fewn y Polisi Gosod Tai ac yn un o'r anghenion Tai brys os yn peryglu'r denantiaeth yn ariannol felly mae achosion o dan-feddiannu yn dod ag ymgeiswyr yn agos i dop y rhestr.

Gofynnwyd faint o dai sydd gan y cymdeithasau tai yng Ngwynedd.

- Mewn ymateb nodwyd bod gan Adra 7,300 o stoc Tai a bod 90% o'r stoc yno yng Ngwynedd. Nodwyd fod Tai Gogledd Cymru efo 900 o stoc yng Ngwynedd, sy'n

cynnwys eiddo Tai Gofal Ychwanegol a Thai Cefnogol yn ogystal ag eiddo cymdeithasol. Adroddwyd bod Grŵp Cynefin efo 1,900 o eiddo yng Ngwynedd sy'n gymysgedd o dai rent cymdeithasol, tai a chefnogaeth, cynlluniau Gofal Ychwanegol ac eiddo rhan berchnogaeth a thai canolraddol. Nododd Clwyd Alun mai dim ond y stoc ym Mhenrhos Pwllheli sydd ganddynt yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Gofynnwyd faint o arian sydd gan y cymdeithasau tai yn y gronfa i helpu atal digartrefedd ac o ble daeth yr arian yno.

- Mewn ymateb nodwyd bod y cronfeydd yn cael eu creu yn fewnol a bod swm o arian yn cael ei ddynodi yn fewnol i'r cronfeydd tlodi neu'r cronfeydd tan-feddiannu sy'n dod o arian sy'n cael ei greu gan incwm y gymdeithas tai.
- Ychwanegwyd bod y Cyngor yn derbyn Grant Cymorth Tai gan y Llywodraeth bob blwyddyn sydd yn grant sylweddol, a bod y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau gan y cymdeithasau tai sy'n rhoi cymorth i unigolion ac osgoi digartrefedd. Mynegwyd bod cyd-weithio agos iawn efo partneriaid i sicrhau bodolaeth prosiectau sy'n cyfrannu at yr amcanion hyn.

Gofynnwyd faint o wahaniaeth mae adeiladau newydd e.e. y 28 o fflatiau newydd ym Mron Deg Pwllheli yn ei wneud i'r rhestr aros.

- Mewn ymateb nodwyd bod 8 wedi cael eu trosglwyddo i'r fflatiau ym Mron Deg Pwllheli fel trosglwyddiadau rheoli mewnol oherwydd eu bod yn tan-feddiannu ac yn byw mewn tai 2-3 llofft. Nodwyd bod hyn wedi rhyddhau rywfaint o bwysau ond heb wneud gwahaniaeth mawr i'r ffigwr o 2,000-2,500 sydd ar y rhestr aros, ond fod pob cynllun yn help.

Awgrymwyd i'r cymdeithasau tai gyd-weithio ar ymgyrch yn y flwyddyn newydd er mwyn codi ymwybyddiaeth ar y cymhellion i denantiaid symud i eiddo llai. Awgrymwyd hefyd os oes lle i fod yn greadigol ac ystyried gwahanol gynlluniau fel y cynllun rhannu cartref sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i helpu digartrefedd. Diolchodd y cymdeithasau tai am y syniad gan fynegi y byddai'n bosib iddynt gyd-weithio ar ymgyrch o amgylch lleihau maint eiddo.

<u>Ansawdd tai a gwaith cynnal a chadw</u>

Adroddwyd bod ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau ymysg y cymdeithasau tai ers y cyfnod Cofid. Cyfeiriwyd at y safonau WHQS (Safon Ansawdd Tai Cymru) newydd sy'n rhestru'r hyn sy'n orfodol i'r cymdeithasau tai ei wneud a sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ers flwyddyn yma. Nodwyd bod safonau newydd mae'n rhaid i'r cymdeithasau tai gydymffurfio a hwy ac eraill ble bydd angen cynllunio ar eu cyfer. Mynegwyd yn gyffredinol bod proffil stoc y cymdrithasau tai yn hen.

Cyfeiriodd y Adra at y buddsoddiad y maent wedi ei wneud i'w eiddo gan adrodd eu bod wedi gwneud 60 miliwn o fuddsoddiad i'w stoc yn ystod y dair mlynedd ddiwethaf. Roedd y buddsoddiadau yma yn cynnwys adeiladu tai newydd, buddsoddi yn y tai presennol a gwella'r gwasanaeth gofal cwsmer. Nodwyd ei bod yn costio £12,000 ar hyn o bryd ar gyfartaledd i ddod ag eiddo sy'n dod yn wag nol i safon cyn i denant newydd symud fewn.

Amlygwyd fod rhaid i bob eiddo cymdeithasol gael ei garpedu cyn cael ei ail osod a bod rhaid i'r gegin a'r toiled gyrraedd safon ansawdd Tai Cymru e.e. socedi mewn llefydd penodol ayyb. Nodwyd ei bod yn hanfodol i eiddo'r cymdeithasau tai fod wedi eu safoni er mwyn hwyluso trefniadau pe bai gwaith trwsio rheolaidd neu frys yn codi yn yr eiddo.

Mewn ymateb i gwestiwn am ba mor hawdd ydi i'r Aelodau gysylltu efo'r cymdeithasau tai, nododd Tai Gogledd Cymru eu bod efo gwefan a bod rhif ffôn ac e-bost ar y wefan. Ychwanegwyd eu bod yn hapus i drafod efo aelodau lleol ac yn agored i awgrymiadau ar sut i wella'r cyswllt. Nododd Clwyd Alyn eu bod efo rhif cyswllt penodol ar gyfer Aelodau

yn ogystal â chanolfan gyswllt a proses gwyno clir. Cyfeiriwyd at yr e-bost penodol i Gynghorwyr sydd gan Adra gyda amryw yn ei ddefnyddio.

- Gwnaethpwyd awgrym i'r Cyngor ddarparu ffurflen bwrpasol pan fo problem mewn eiddo i'r Cynghorwyr allu ei gwblhau. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau dderbyn taflen gyswllt sy'n cynnwys rhifau ffôn ag e-bost gwahanol Adrannau o fewn y Cymdeithasau Tai fel eu bod yn gallu mynd yn uniongyrchol at y person fwyaf addas.

Mewn ymateb i gwestiwn am werthu stoc, adroddodd Adra eu bod wedi gwerthu 7 o'u heiddo ers 1 Ionawr 2020 ac yn yr un cyfnod wedi adeiladu cannoedd o dai newydd. Amlygwyd fod yr arian sy'n cael ei dderbyn o werthu eiddo yn mynd at adeiladu Tai newydd yn y Sir. Manylwyd bod yr eiddo yma yn mynd ar y farchnad efo cytundeb 106 (s.106) er mwyn annog prynwyr lleol. Ychwanegwyd nad yw'r cymdeithasau tai yn gwerthu eiddo ar chwarae bach a dim ond yn ystyried hyn fel yr opsiwn olaf.

Mewn ymateb i gwestiwn am yr amser aros i waith atgyweirio gael ei gwblhau a chwynion gan rai o drigolion y Sir am y broses, nododd Adra bod amserlen benodol yn bodoli o fewn y gymdeithas dai i gwblhau gwaith cynnal a chadw. Ymhelaethwyd os yw'r tenant yn fregus bod hyblygrwydd o fewn yr amserlen. Nodwyd eu bod yn delio efo 20,000 o geisiadau atgyweirio yn flynyddol a bod bodlonrwydd eu tenantiaid yn 90% efo'r gwasanaeth trwsio. Er mwyn gwella'r ffigwr hwn a'r cyfathrebu o fewn Adra, adroddwyd bod prosiect corfforaethol trawsadrannol ar y gweill o ran y gwasanaeth cynnal a chadw a bydd pob elfen o gyfathrebu o fewn y broses yn derbyn sylw dros y flwyddyn nesaf.

Ymhelaethodd Tai Gogledd Cymru ar eu targedau i gwblhau gwaith atgyweirio gan adrodd ar rai o'r heriau sy'n bodoli e.e. tenantiaid ddim yn eu gadael i mewn i'r eiddo neu oedi i dderbyn rhannau neu ddeunydd sy'n hanfodol i gwblhau'r atgyweiriad a ffactorau eraill all arwain at oedi. Ychwanegwyd eu bod efo tîm atgyweirio mewnol a bod y tenantiaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth hwn.

Cyfeiriwyd at ddisgwyliad y Llywodraeth i bob eiddo cymdeithasol fod yn gyfradd EPC A erbyn 2035 gan nodi y bydd rhaglen o welliant parhaus gan y cymdeithasau tai ond ni fydd yn digwydd ar y raddfa gyflym. Adroddwyd bod elfen o hyblygrwydd i gyrraedd y targed yma felly nad oes pwysau mawr ar y cymdeithasau tai ar hyn o bryd ond cydnabuwyd nad oes llawer o amser i gyrraedd y targedau. Nodwyd y bydd y cymdeithasau tai yn gweithio drwy eu cynlluniau cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 a gweld beth fydd y ffordd ymlaen yn dilyn hynny.

Cwestiynwyd os yw'r ffordd mae rhai o'r tenantiaid yn byw yn gwneud drwg i'r eiddo e.e. sychu dillad yn y tŷ, peidio gadael i'r tŷ anadlu sy'n arwain at leithder a llwydni. Mewn ymateb credwyd bod gwaith rendro ac insiwleiddio yn gwella EPC yr eiddo ond credwyd bod lle i sicrhau bod elfen o addysgu yn digwydd i gyd-fynd efo'r gwaith sef i wneud y gorau o'r eiddo o ran ei berfformiad ac er mwyn atal lleithder a llwydni.

Gofynnwyd am ddata gan gymdeithas dai Adra am faint o eiddo sydd efo lleithder a llwydni. Mewn ymateb adroddodd cynrychiolydd Adra bod y data yma yn cael ei adrodd i'r Llywodraeth yn chwarterol a buasent yn darparu'r data yno i'r Aelodau. Gofynnwyd i Aelodau gyfeirio achosion penodol ymlaen i'r cymdeithasu tai y tu allan i'r Pwyllgor hwn gan sicrhau y bydd eu hymholiadau yn derbyn sylw.

<u>Tai gwag a phrynu Tai</u>
Adroddwyd bod un eiddo gwag hir dymor ar hyn o bryd gan Dai Gogledd Cymru gyda 31 eiddo yn wag o fewn y cyfnod gwag gweithredol; 13 o'r rheini yng Ngwynedd. Nodwyd ar hyn o bryd bod eiddo yn wag am gyfnod cyfartalog o 25 diwrnod a bod hyn yn bennaf oherwydd y safonau WHQS (Safon Ansawdd Tai Cymru) y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy cyn i denant newydd symud fewn. Adroddodd Clwyd Alyn ffigyrau tebyg gan nodi eu

bod yn cymryd 28 diwrnod ar gyfartaledd i ddod a thŷ gwag yn ôl i ddefnydd. Ychwanegwyd y gall anghenion penodol er enghraifft yr angen i garpedu neu loriau newydd i eiddo adio amser i'r broses neu os yw'r eiddo angen cegin neu ystafell ymolchi newydd gall hyn olygu bod yr eiddo yn wag am fwy o amser cyn iddo fod yn barod i'r tenant newydd. Nodwyd pob eiddo yn cael ei asesu'n unigol a bod y gwaith yn cael ei gwblhau mor gyflun â phosib.

Adroddwyd y ffigyrau cyfartalog cenedlaethol o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru sydd yn wag ar unrhyw adeg, sef 2%. Nodwyd mai'r cyfartaledd ar gyfer Gwynedd ydi 1.6%. Ychwanegwyd bod 1.7% o stoc Tai Adra yn wag ar hyn o bryd sy' gyfystyr a 100-120 o dai gwag, sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd ei bod yn cymryd 2 fis ar gyfartaledd i gael eiddo yn barod i'w ail osod am fod gwaith sylweddol yn cael ei wneud i wella'r eiddo fel arfer. Nodwyd bod 96% o'r tenantiaid sy'n derbyn eiddo yn fodlon efo cyflwr yr eiddo.

Mewn ymateb i'r cwestiwn os yw'r cymdeithasau tai wedi prynu hen dai Cyngor yn y 3 mlynedd ddiwethaf, roedd consensws ymysg y cymdeithasau tai eu bod yn dueddol o fuddsoddi arian cyfalaf mewn tai newydd ac mai dyma yw eu ffocws. Nododd Adra eu bod wedi prynu 3-4 eiddo Cyngor yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf oherwydd yr heriau o brynu hen dai a'u dod a nhw i safon WHQS.

<u>Cyfathrebu a chwynion</u>
Adroddwyd bod y cymdeithasau tai efo Polisïau Cwynion ond yn ceisio delio a materion cyn iddynt fynd yn gwynion ffurfiol. Nodwyd bod y cymdeithasau tai yn anelu i ymateb i denantiaid o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn cwyn. Nododd Clwyd Alyn eu bod efo Panel Cwynion sydd yn gymysgedd o staff y gymdeithas dai a phreswylwyr a bod y Panel Cwynion yma yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn edrych am welliannau posib o fewn y gyfundrefn gwyno.

Nododd Tai Gogledd Cymru bod eu ffigyrau cwynion nhw yn isel iawn felly maent yn gwneud gwaith ar hyn o bryd i sicrhau fod cwynion yn cael eu recordio'n gywir a hyrwyddo'r broses gwynion. Nodwyd bod cwynion yn gallu bod yn bositif er mwyn gallu gwella ac adlewyrchu ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Nododd Adra eu bod nhw efo un swyddog sy'n bwynt cyswllt ar gyfer y cwynion.

Gofynnwyd a ydi'n bosib i'r Aelodau dderbyn copi o gytundeb tenantiaeth cyffredinol y cymdeithasau tai er mwyn eu cynorthwyo pan maent yn derbyn cwynion gan y cyhoedd am denantiaid tai cymdeithasol.

- Mewn ymateb cynigiwyd i'r cymdeithasau tai rannu copi o'r Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol efo'r Aelodau. Nodwyd os yw'r Aelodau yn derbyn cwynion am achosion o dor-cyfraith mai'r Heddlu yw'r pwynt cyswllt cyntaf. Nodwyd os yw'r aelodau yn derbyn unrhyw gwynion fel arall iddyn nhw gysylltu drwy'r pwynt cyswllt arferol a fydd y cwynion yn cael eu pasio ymlaen i'r Tîm Bro sy'n delio efo achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyfeiriwyd at enghraifft o ymarfer da gan Grŵp Cynefin yn ddiweddar ble bu i Aelod dderbyn e-bost yn rhestr pa dai fydd yn dod yn wag yn y ward dros yr wythnosau nesaf ac yn gofyn i'r Cynghorydd annog y trigolion i gysylltu. Anogwyd yr holl gymdeithasau tai i ddilyn yr esiampl hon. Cefnogwyd y sylw hwn gan yr Aelodau gan nodi y byddai'n dda i'r Cynghorwyr wybod pryd fydd yna dai yn dod yn wag yn eu ward a neges bellach yn nodi pryd mae'r tai hynny wedi eu gosod.

Gwnaethpwyd apêl i Adra i lacio rhwfaint ar eu polisi Aelodau. Cydnabuddwyd eu bod yn grêt cael un pwynt cyswllt rhan fwyaf o'r amser ond teimlai'r Aelodau y buasai'n werthfawf cael sgwrs efo Arweinydd Tîm neu Bennaeth Adran o fewn Adra ar rai achlysuron yn hytrach na'r un swyddog sy'n bwynt cyswllt i'r Aelodau. Credwyd y byddai hyn yn

werthfawr er mwyn gallu adeiladu perthynas ac addysgu Aelodau am y rhesymau tu ôl i bethau fwy technegol eu natur.

- Mewn ymateb nododd Adra bod yr un pwynt cyswllt yn gweithio'n dda a'u bod nhw'n awyddus i hyn barhau yn enwedig efo ymholiadau cychwynnol neu ymholiadau llai cymhleth. Nodwyd bod Catrin Thomas wedi ei phenodi i arwain y tîm yno yn ddiweddar a bydd yr adborth hwn gan Aelodau yn cael ei fwydo nôl i'r cwmni er mwyn gweld os oes modd adolygu'r broses. Ychwanegwyd y bydd Adra yn mynychu'r pedwar Fforwm Ardal yn fuan yn 2025 a bod y trefniadau mewn lle er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau dderbyn gwybodaeth ar lefel fwy lleol.

Diolchwyd i'r cymdeithasau tai gan nodi bod y drafodaeth heddiw wedi bod yn agoriad llygaid a bod yr Aelodau wedi dysgu llawer am y drefn. Diolchwyd i'r cymdeithasau tai am eu gonestrwydd gan adrodd fod y cyfarfod wedi bod yn addysgiadol iawn. Gobeithiwyd y bydd y cymdeithasu tai yn derbyn rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf er mwyn gallu cynyddu niferoedd yr eiddo cymdeithasol a gobeithio lleihau'r rhestr aros. Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r cymdeithasau tai am eu sylwadau ac am eu hamser.

**PENDERFYNWYD**

**1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a diolch i'r Adran Dai ac Eiddo am y wybodaeth gynhwysfawr a gyflwynwyd.**

**2. Gofoyn am wybodaeth ychwanegol gan yr Adran Dai ac Eiddo am:**

- **Y niferoedd oedd ar y rhestr aros ar gyfer byngalos yng Ngwynedd ac yn ardal Meirionnydd.**
- **Y niferoedd Digartrefedd a faint o'r niferoedd hyn sydd ddim o Wynedd yn wreiddiol.**
- **Linc i'r dudalen ar y Fewnrwyd Aelodau sy'n darparu data am y Gofrestr Dai fesul wardiau.**
- **Ddata ar y niferoedd sy'n cyfnewid Tai (cydgyfnewid).**
- **Ddata am y gofrestr Tai Teg a'i niferoedd.**
- **Y ffigyrau Tanfeddiannu.**
- **Yr eithriadau i'r Polisi Gosod dros y 5 mlynedd ddiwethaf gan nodi'r rheswm.**

**3. Datgan pryder am:**

- **Y diffyg mewnbwn gan y Cyngor pan fo cyfnewidiadau Tai yn digwydd.**
- **Oblygiadau posib y Papur Gwyn i Bolisi Gosod Tai Gwynedd yn y dyfodol.**
- **Y diffyg gostyngiad yn niferoedd y Gofrestr Dai Gyffredin dros y deg mlynedd diwethaf.**
- **Y niferoedd digartref yn y Sir.**
- **Gyfathrebu efo'r Cymdeithasau Tai gan awgrymu i'r Adran Dai ddarparu ffurflen safonol i Aelodau ei gwblhau ar ran tenantiaid pan fo angen gwaith cynnal a chadw gan gynnwys darparu pwyntiau cyswllt gwahanol Adrannau'r cymdeithasau Tai.**

**4. Derbyn y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cymdeithasau Tai a'u hymatebion i gwestiynau'r aelodau fydd wedi eu crynhoi yng nghofnodion y Pwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 15.45yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 20/02/2025 |
| **TEITL** | **Arolygaeth Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru Archwiliad ar y cyd – Hydref 2024** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cyflwyno canfyddiadau yr archwiliad ac ymateb y Cyngor i'r Pwyllgor |
| **AWDUR** | Aled Davies – Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **AELOD CABINET** | Dilwyn Morgan |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Pan mae archwiliad eang o wasanaethau adran gofal yng Ngwynedd yn cael eu ymgymryd gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), mae'n arferol i gynrychiolydd yr archwilwyr gael eu gwahodd i'r Pwyllgor Craffu Gofal i gyflwyno eu adroddiad a'r canfyddiadau. Ochr yn ochr a hyn, mae'r adran berthnasol yn ymateb i'r canfyddiadau ac argymhellion trwy gyflwyno rhaglen waith i alluogi'r Pwyllgor i graffu ei chynnwys a'i haddasrwydd.

Yn arferol, mae adroddiadau ar archwiliadau o waith a phrosesau'r Cyngor a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae trefniant tebyg ar gyfer cyflwyno ymateb gwasanaeth neu adran benodol i'w canfyddiadau ac argymhellion ar ffurf templed penodol.

Ym Mis Medi 2024, derbyniodd y Cyngor ohebiaeth gan AGC a SAC yn ein hysbysu eu bod yn bwriadu cynnal archwiliad ar y cyd o wasanaethau yn yr Adran Oedolion. Yn yr ohebiaeth eglurwyd y byddai gwaith archwilio AGC yn rhoi sylw penodol i archwilio cynnydd a wnaed ers yr archwiliad blaenorol yn 2022. Eglurwyd y byddai gwaith archwilio SAC yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud a darparu a chomisiynu gofal cartref mewnol ac allanol.

Ochr yn ochr a'r gwaith uchod, derbyniwyd hysbysiad bod AGC yn cynnal archwiliad o wasanaeth cofrestredig gofal cartref mewnol y Cyngor dan ddeddfwriaeth a chanllawiau RISCA – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae archwiliadau o wasanaethau cofrestredig mewnol a phreifat yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Yn arferol, mae'r archwiliadau dan y ddeddfwriaeth yma yn cael eu cyflwyno i sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cynhaliwyd yr archwiliad ar y cyd ganol mis Hydref 2024.

Mae'r Adran/Cyngor yn ddiolchgar am y cyfle gafwyd i drafod a chynnig sylwadau ar lythyrau/adroddiadau drafft y ddau gorff archwilio ac fe dderbyniwyd yr adroddiadau/llythyrau terfynol yn gynharach y mis hwn.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Oherwydd bod y gwaith archwilio wnaed yn waith ar y cyd a'r adroddiadau/llythyrau yn cael eu cyhoeddi'n gyfochrog ac o ystyried amseriad eu cyhoeddi, credwyd y byddai budd o'u cyflwyno gyda'u gilydd i'r Pwyllgor Craffu Gofal.

Bydd yr adroddiad archwiliad RISCA ar y gwasanaeth gofal cartref mewnol cofrestredig yn dilyn y llwybr adrodd arferol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cyflwynir felly y dogfennau canlynol i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal:-

i. Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Gwynedd – Gwasanaethau Oedolion – (Llythyr gan Arolygaeth Gofal Cymru)

ii. Ymateb i lythyr Arolygaeth Gofal Cymru - Rhaglen waith Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd

iii. Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd – (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru)

iv. Ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Rhaglen waith Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd

## 3. Camau Nesaf

Ar ôl trafod a chael barn y Pwyllgor Craffu Gofal, bydd yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi blaenoriaeth briodol i sicrhau bod gwasanaethau'r Adran yn gweithredu'r rhaglen waith i ymateb i'r canfyddiadau ac argymhellion sy'n codi yn llythyrau/adroddiadau AGC a SAC.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Huw Dylan Owen
Cyngor Gwynedd

Dyddiad / Date:06/02/2025

Annwyl Gyfarwyddwr

**Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Gwynedd – gwasanaethau oedolion**

Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau'r ymweliad Gwiriad Gwella â gwasanaethau oedolion (y gwasanaeth) Cyngor Gwynedd rhwng 14 a 16 Hydref 2024. Cynhaliwyd yr ymweliad hwn yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Medi 2022.

**1. Cyflwyniad**

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran cefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

Canolbwyntiodd y Gwiriad Gwella ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r meysydd canlynol a nodwyd fel meysydd i'w gwella yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Medi 2022.

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Medi 2022. | Cynnydd a nodwyd yn ystod y Gwiriad Gwella |
|---|---|---|
| Pobl | Rhaid i anghenion pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt | Gwnaed rhai gwelliannau – mae |

| | | |
|---|---|---|
| | gartref gael eu diwallu mewn modd amserol. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau y mae'r pwysau cysylltiedig ar ofalwyr a gwasanaethau ysbyty yn cael eu lliniaru.<br><br>Rhaid gwneud yn siŵr bod digon o staff ar gael i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth pobl yn cael eu diwallu'n effeithiol, yn enwedig Therapyddion Galwedigaethol ac Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy.<br><br>Rhaid sicrhau cysondeb wrth gynnig asesiad i ofalwyr yn unol â'u dyletswyddau statudol.<br><br>Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r trefniadau ar gyfer darparu taliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl. | angen cymryd camau pellach.<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach<br><br>Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Atal | Rhaid i bobl gael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol. Rhaid i adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth gael eu cynnal mewn modd amserol. | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Llesiant | Rhaid i ymarfer diogelu oedolion, gan gynnwys cadw cofnodion, gydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.<br><br>Rhaid i'r ymarfer gyflawni dyletswyddau statudol yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005). | Gwnaed gwelliannau – rhaid iddynt gael eu cynnal<br><br>Gwnaed gwelliannau – rhaid iddynt gael eu cynnal |
| Partneriaethau | Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio tuag at wella cydberthnasau strategol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a llesiant pobl. | Gwnaed gwelliannau – rhaid iddynt gael eu cynnal |

**2. Rhestr Terminoleg a Diffiniadau o Niferoedd**
Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1 a thabl yn nodi diffiniadau o niferoedd yn Atodiad 2.

**3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Gwiriad Gwella**

<u>Gwasanaethau Oedolion</u>

3.1 Mae gan y gwasanaethau oedolion dîm arwain sefydlog a phrofiadol, sydd wedi ysgogi ac wedi gweithredu rhai newidiadau cadarnhaol ers yr arolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf.

3.2 Fodd bynnag, cynnydd cyfyngedig a wnaed o ran lleihau achosion o oedi cyn asesu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth pobl.

3.3 Mae pobl hefyd yn gorfod aros am ofal a chymorth gartref o hyd. Er bod nifer y bobl sy'n aros am ofal cartref wedi lleihau ers yr arolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf, mae niferoedd uchel o bobl yn gorfod aros o hyd, a hynny am gyfnodau hir.

3.4 Mae'r arweinwyr yn ymwybodol bod angen gwneud rhagor o waith i wella ymarfer ac argaeledd gofal a chymorth. Rhaid blaenoriaethu'r cynlluniau gwaith sydd ar waith er mwyn ysgogi rhagor o welliannau. Mae'r arweinwyr yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg cynnydd a wnaed mewn rhai meysydd, a'r ffaith na wnaed cynnydd mor gyflym ag y byddent wedi ei ddymuno. Mae cynnydd yn y galw am ofal a chymorth, yn ogystal â phroblemau recriwtio mewn ardaloedd gwledig wedi cyfrannu at yr heriau.

3.5 Mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu harweinwyr a'u cydweithwyr.

3.6 Mae'r arweinwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r ymarferwyr ac yn nodi mai nhw yw'r adnodd gorau sydd ganddynt.

3.7 Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir o ran y ffordd y gellir cefnogi pobl yn eu cymunedau drwy ddull sy'n seiliedig ar gryfderau a chanlyniadau, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn ddiweddar, Llechen Lân. Mae rhai o'r arweinwyr yn cydnabod nad ydyw ymarfer pawb yn adlewyrchu'r dull yn llawn eto, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi newid mewn diwylliant.

3.8 Mae mwy o sefydlogrwydd o ran rolau fel gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn parhau i wynebu heriau o ran sicrhau digon o weithwyr gofal cartref.

3.9 Mae gweithlu proffesiynol cyfan y gwasanaeth o ran gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol wedi'i gyflogi gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu nad yw'n dibynnu ar staff asiantaeth ac yn cynnig gwasanaeth mwy cyson i bobl. Mae pobl hefyd yn cael budd o weithlu proffesiynol sy'n gallu cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.10 Mae pobl a darparwyr yn disgrifio anawsterau wrth gysylltu â'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn ymwybodol bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â gallu pobl i gysylltu â'r gwasanaeth, ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ymateb i'r her yma.

**4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth**

Nodir isod ganfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Pobl – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

**Cryfderau**

4.1 Mae'r arweinwyr yn brofiadol ac yn darparu arweinyddiaeth sefydlog, a dywed yr ymarferwyr eu bod yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt.

4.2 Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi ymroddiad yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig ac yn rhagori ar y disgwyliadau o ran cefnogi pobl. Mae'n amlwg eu bod yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda iawn.

4.3 Yn gadarnhaol, fel y nodwyd yn yr arolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf, mae'r ymarferwyr yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Nododd 94% o'r ymarferwyr a gwblhaodd ein harolwg eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'u harweinwyr.

4.4 Mae mwy o sefydlogrwydd mewn rolau proffesiynol yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys Therapyddion Galwedigaethol ac Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy. O ran cynyddu'r nifer o Therapyddion Galwedigaethol mae sawl ffrwd gwaith mewn lle gan gynnwys cynlluniau hyfforddi, rhaglen i uwch sgilio ymarferwyr gwaith cymdeithasol a sefydlu Academi Gofal. Bwriad yr Academi yw i ddenu gofalwyr i ddarparu gofal i'r gwasanaeth am gyfnod gyda opsiynau i ddatblygu gyrfa a datblygu yn weithwyr arbenigol i'r dyfodol. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynyddu graddau Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy, ac wedi defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi staff ychwanegol yn ystod 2024 a 2025. Er y gall fod yn anodd o hyd i ddarparu staff cyflenwi pan fydd Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy yn absennol, rhagwelir y bydd y camau a gymerwyd yn gallu lliniaru'r sefyllfa yn y tymor hwy.

4.5 Mae'r ymarferwyr yn cael budd o sesiynau goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd, sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion dysgu a datblygu.

4.6 Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n galed i recriwtio, cadw a datblygu staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu, ailstrwythuro'r gweithlu gan arwain at adolygu graddau, a chynlluniau “tyfu eich hun” (“*grow your own*”). Mae'r gwasanaeth hefyd wedi sefydlu Academi Gofal i recriwtio gweithwyr gofal a chynnig cyfleoedd clir iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa.

4.7 Bu cynnydd bach yn nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol. Mae hyn yn golygu bod gan fwy o bobl reolaeth dros y ffordd y caiff eu gofal a’u cymorth eu darparu. Dywedodd aelod o deulu y gwnaethom siarad ag ef fod cael taliadau uniongyrchol yn helpu i sicrhau bod ei berthynas yn gallu parhau i fyw gartref gyda chymorth.

4.8 Mae gweithiwr cymorth i ofalwyr di dâl ar gael, ond nid felly ym mhob gwasanaeth ar draws holl ardaloedd y Sir. Disgrifiodd gofalwr di-dâl fanteision gweithiwr cymorth, a oedd yn rhoi cymorth uniongyrchol penodol i'r gofalwr hwnnw, a dywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod rhywun yn gwrando arnynt. **Mae hyn yn enghraifft o ymarfer da, a byddai’n elwa mwy o ofalwyr di dâl pe byddai’r gwasanaeth yn fwy cyson.**

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.9 Er bod yr ymarferwyr yn gyson glir fod cyfleoedd i fyfyrio ar eu hymarfer, a bod ffocws hefyd ar eu llesiant, tystiolaeth gyfyngedig ac anghyson sydd i'w gweld o hyn yn y ffeiliau goruchwylio ac mae'r ffocws ar drafod achosion. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, yn unol â'i bolisi goruchwylio, bod cofnodion cyson ar gael ar draws y gwasanaethau o oruchwyliaeth gyda aelodau staff. Dylid sicrhau fod y cofnodion hefyd yn benodol ac yn gyson yn adlewyrchu’r ffocws sydd mewn lle ar llesiant staff a’r myfyrio sydd ar eu hymarfer.**

4.10 Er bod enghreifftiau da o gyfeirio at ddymuniadau, teimladau a chanlyniadau pobl mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth, nid yw'n arfer cyson. Ceir enghreifftiau eraill lle mae llais a dewis pobl yn gyfyngedig. Hefyd, nid yw asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth bob amser yn adlewyrchu ymarfer sy'n canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau, na'r cymorth sydd ar gael eisoes. **Yn unol â'r Cod Ymarfer, Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), rhaid i asesiadau gynnwys y pum elfen allweddol ac adlewyrchu sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau â phobl er mwyn nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y canlyniadau personol y maent yn dymuno eu cyflawni a'r cyfraniad y gallan nhw, eu teulu, eu ffrindiau a'r gymuned leol ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny.**

4.11 Mae'r gwasanaeth yn parhau i wynebu heriau wrth gofnodi data am asesiadau a chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'r ymarferwyr yn hyderus eu bod yn cynnig asesiadau i ofalwyr di-dâl, a gwelsom enghreifftiau lle roedd asesiadau gofalwyr wedi'u cynnal a lle roedd gofalwyr di-dâl yn cael budd o'r cymorth a ddarparwyd.

Fodd bynnag, nid yw'n gyson glir o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welsom a yw pob gofalwr di-dâl wedi cael ei asesu mewn modd amserol, neu a oes asesiad wedi cael ei gynnig. Yn achos nifer bach iawn o asesiadau gofalwyr, lle nad oedd angen cynllun gofal a chymorth ffurfiol, ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, oedd wedi'i nodi am yr hyn a oedd ar gael i ddiwallu anghenion posibl y gofalwyr di-dâl yn y dyfodol. **Rhaid i'r awdurdod lleol wella'r data y mae'n eu casglu am asesiadau a chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i asesu a oes angen gofal a chymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol y bydd angen gofal a chymorth arno yn y dyfodol) ac os felly, pa anghenion sy'n debygol o fod ganddo. Rhaid i'r arweinwyr hefyd sicrhau bod pobl a gofalwyr di-dâl yn cael eu cyfeirio'n briodol at wybodaeth, cyngor, cymorth neu wasanaethau ataliol a gwasanaethau cymunedol eraill, gan gynnwys gwasanaethau yn y trydydd sector, p'un a oes ganddynt gynllun gofal a chymorth ffurfiol ai peidio.**

4.12 Roedd y dystiolaeth yn y cofnodion gofal cymdeithasol i ddangos bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig yn amrywio. Mae'r arfer o gynnig taliad uniongyrchol fel dewis i ddiwallu anghenion cymwys a aseswyd yn anghyson. Nodir fod cynlluniau mewn lle i wella'r trefniadau ar gyfer taliadau uniongyrchol a bod cynnydd bychan wedi ei wneud o ran nifer y bobl sy'n dewis yr opsiwn. **Er hynny, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael cynnig taliad uniongyrchol yn gyson os oes ganddynt anghenion cymwys am ofal a chymorth, a lle y gallai taliad uniongyrchol eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Rhaid cofnodi'n glir pan gaiff yr opsiwn hwn ei gynnig, gan nodi hefyd y rhesymau dros wrthod lle bo hynny'n berthnasol.**

4.13 Nododd ychydig yn llai na thraean y bobl a gwblhaodd arolwg AGC eu bod yn cael problemau wrth geisio cysylltu â'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys y ffaith nad oedd galwadau yn cael eu hateb, gorfod aros am amser hir cyn cael ateb, a gorfod aros cryn amser cyn cael galwad yn ôl. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu creu system pwynt cyswllt cyntaf symlach er mwyn gwella profiadau pobl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu cynnig yn brydlon a hynny mewn modd hygyrch.**

**Atal – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf, ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i bobl?

**<u>Cryfderau</u>**

4.14 Mae adolygiadau statudol amserol o ansawdd da yn cael eu cynnal i asesu a yw cynlluniau gofal a chymorth pobl yn dal i fod yn briodol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau hefyd o bobl weithiau'n gorfod aros y tu hwnt i'r terfyn amser statudol am adolygiad. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod adolygiad statudol ffurfiol yn ffordd bwysig o sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol i anghenion cymwys pobl.

4.15 Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer y micro-ofalwyr sydd ganddo i 17. Mae hyn yn cynnig opsiwn gofal a chymorth amgen yn hytrach na gofal cartref traddodiadol. **Mae'r awdurdod lleol yn cyflogi ymarferydd penodol i gefnogi a hyfforddi pobl i sefydlu busnesau micro, ac mae hyn yn arfer da. Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i waith i hyrwyddo'r opsiynau gofal a chymorth sydd ar gael gan gynnwys nifer y micro-ofalwyr sydd ar gael, yn unol â'i ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol.**

4.16 Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl sy'n cael gwasanaeth gofal cartref ac mae wedi cael cyllid penodol i'w gefnogi yn hyn i beth. Er enghraifft, mae'n treialu ffordd newydd o weithio gan ddefnyddio technoleg ac apiau i wella'r cyfathrebu rhwng darparwr gofal, unigolyn a'i deulu. Ni chynhaliwyd gwerthusiad llawn o hyn eto.

**Meysydd i'w Gwella**

4.17 Mae amseroldeb asesiadau yn amrywio. Mae pobl yn gorfod aros am therapi galwedigaethol, gwaith cymdeithasol ac asesiadau gofalwyr o hyd ac mewn rhai enghreifftiau, mae'r amseroedd aros yn rhy hir. Mae'r arweinwyr yn hyderus o ran y trefniadau presennol sydd ar waith i ymarferwyr fonitro amgylchiadau pobl a rheoli risgiau tra byddant yn aros am asesiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael ymateb cymesur ac amserol sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.**

4.18 Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau cadarnhaol i wella amseroldeb adolygiadau, gan gynnwys creu capasiti ychwanegol penodol ar gyfer cynnal adolygiadau. Fodd bynnag, erys heriau ac nid yw'r holl swyddi byrdymor ychwanegol a grëwyd wedi'u llenwi, sy'n golygu nad yw mantais yr adnodd ychwanegol hwn wedi'i gwireddu'n llawn eto. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd, a sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd mewn perthynas ag adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn unol â'r terfynau amser statudol.**

4.19 Pan gynhaliwyd yr arolygiad gwerthuso perfformiad diwethaf, roedd yr awdurdod lleol yn newid i ddefnyddio un darparwr gofal cartref mewnol neu allanol mewn 13 is ardal, gan rannu darpariaeth mewn tair is ardal arall. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd ac mae nifer y bobl sy'n aros am ofal cartref wedi lleihau.

Fodd bynnag, mae pryderon am nifer y bobl sy'n dal i aros am ofal cartref a'r risg gysylltiedig i ddewisiadau pobl a'u gallu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae hyn hefyd yn rhoi pwysau ar ofalwyr di-dâl ac adnoddau ysbytai. Nodwyd bod yr awdurdod lleol yn ystyried cywirdeb ei ddata er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o amseroedd aros am ofal cartref. Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu bwrdd prosiect gofal cartref sydd â ffrydiau gwaith gwahanol er mwyn lleihau'r rhestr aros am ofal cartref. Mae'r ffrydiau gwaith hefyd yn gyson â gweledigaeth y gwasanaeth a adlewyrchir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028 ac argymhellion adroddiad Llechen Lân, gan sicrhau disgwyliadau clir a chyson. **Rhaid i'r awdurdod lleol flaenoriaethu ei gynllun gwaith ar gyfer lleihau amseroedd aros am ofal cartref. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl, a gofalwyr di-dâl, yn cael cymorth amserol ac yn atal anghenion rhag gwaethygu.**

4.20 Ar ddiwedd 2023, dechreuodd yr awdurdod lleol archwiliad mewnol mewn ymateb i orwariant wrth gomisiynu gwasanaethau gofal cartref annibynnol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd rhai gwasanaethau a gomisiynwyd bob amser yn cael eu darparu'n unol â'r trefniadau cytundebol, ac nad oedd materion o'r fath yn cael eu datrys mewn modd amserol. O ganlyniad, collwyd cyfleoedd i gefnogi mwy o bobl ac i leihau amseroedd aros am gymorth gofal cartref. Mae cynlluniau gwaith wedi'u creu fel rhan o'r prosiect gofal cartref i wella trefniadau comisiynu a sicrhau proses oruchwylio fwy cadarn. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau comisiynu yn seiliedig ar ddata ystyrlon a'u bod yn cydymffurfio ag egwyddorion a gofynion y Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer.**

4.21 Er bod gan yr awdurdod lleol strategaeth Sicrhau Ansawdd ddrafft, mae'n canolbwyntio'n benodol ar fonitro ansawdd gwasanaethau a gomisiynwyd. Nid yw'r strategaeth yn ymdrin â monitro a sicrhau ansawdd ymarfer uniongyrchol ar hyn o bryd. Nid yw'r broses sicrhau ansawdd wedi'i datblygu ddigon ac mae angen ei hadolygu'n llawn gan ystyried y ffordd y caiff ei chyflawni a'i heffaith o ran helpu i wella canlyniadau i bobl. **Rhaid i'r awdurdod lleol roi fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith a'i ymgorffori. Mae'r gwelliannau hyn yn hanfodol er mwyn craffu ar ddata i ysgogi gwelliannau i wasanaethau a sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio ymarfer rheng flaen yn well, gan sicrhau ei fod yn gyson â gweledigaeth y gwasanaeth a'r argymhellion ar gyfer ymarfer a nodwyd yn adroddiad Llechen Lân.**

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

**<u>Cryfderau</u>**

4.22 Mae'r ymarfer ym maes diogelu oedolion wedi gwella. Mae pobl yn cael eu diogelu'n briodol rhag y risg o niwed neu gamdriniaeth drwy drefniadau amlasiantaeth effeithiol. Mae'r ymarfer yn gyson â disgwyliadau Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae lleisiau pobl yn ganolog i'r broses ddiogelu i raddau helaeth, a chaiff eu dymuniadau eu nodi a'u hystyried.

4.23 Mae'r ymarfer mewn perthynas ag asesu galluedd meddyliol pobl wedi gwella. Caiff galluedd meddyliol pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth ei ystyried yn gyson. Yn gyffredinol, mae ansawdd asesiadau o alluedd yn dda, ac maent yn dilyn egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r Cod Ymarfer. **Yn yr enghreifftiau gorau, ceir cofnodion da o'r trafodaethau a nodir ymatebion y person air am air, sy'n arfer da.** Mae hyfforddiant perthnasol, trefniadau goruchwylio gan gymheiriaid, trafodaethau tîm a Hyrwyddwyr Asesiadau o Alluedd Meddyliol mewn rhai timau yn gwella hyder y gweithlu ac ymarfer mewn perthynas ag asesiadau o alluedd meddyliol.

4.24 Mae pobl yn teimlo bod y gwasanaeth yn eu trin â pharch. Nododd 83% o'r bobl a gwblhaodd holiadur AGC eu bod yn teimlo bod hyn yn wir ‘bob amser’, neu ei fod yn wir ‘y rhan fwyaf o'r amser’.

**Meysydd i'w Gwella**

4.25 Lle roedd dyletswydd i roi gwybod am achos yn ymwneud ag unigolyn, nid oedd y cofnodion bob amser yn nodi a roddwyd gwybod i'r unigolyn hwnnw am ganlyniad y broses. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion cyson yn cael eu llunio i ddangos bod unigolion yn cael gwybod am ganlyniad atgyfeiriadau diogelu.**

**Partneriaeth – Gwnaethom ofyn:**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu bodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chwbl integredig i bobl?

**Cryfderau**

4.26 Ar lefel weithredol, mae enghreifftiau o gydweithio da â phartneriaid, gan gynnwys sefydliadau iechyd, yr heddlu a'r trydydd sector, er mwyn cefnogi canlyniadau da i bobl.

4.27 Cafodd y bwrdd i ddatblygu Timau Adnoddau Cymunedol ei ailsefydlu, wedi'i gadeirio gan arweinwyr mewn swyddi strategol yn yr awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol ymhellach.

4.28 Mae cynllun gwaith y gwasanaeth yn cynnwys uchelgeisiau clir i wella'r cyfathrebu â phartneriaid ymhellach. Un enghraifft yw'r ymdrechion cyson i gynnwys darparwyr gofal cartref fel rhan o Dimau Adnoddau Cymunedol, gan hwyluso trafodaethau a threfniadau cyfathrebu.

4.29 Erys heriau wrth weithio gyda BIPBC ar lefel strategol oherwydd newidiadau cyson yn rolau strategol allweddol y Bwrdd, a newidiadau o ran rolau a chyfrifoldebau proffesiynol. Ceir enghreifftiau o gydweithio parhaus fel y trafodaethau ar y cyd sydd wedi dechrau am brosesau rhyddhau o'r ysbyty, gan ystyried sut i wella'r prosesau ac ehangu rôl y trydydd sector. Enghraifft arall yw'r trafodaethau a'r gwaith yn ymwneud â darpariaeth gofal nyrsio, gofal preswyl a gofal ychwanegol arloesol newydd.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.30 Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod angen gwella'r trefniadau cydgomisiynu â BIPBC. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwella canlyniadau i bobl drwy ddarparu gwasanaethau integredig effeithiol.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 12 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar wyth cofnod gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol person yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â dau berson sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr drwy gyfweliadau.
- Gwnaethom ymgysylltu â 13 o gyflogeion yr awdurdod lleol drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol,

rheolwyr tîm, pennaeth comisiynu, cynorthwywyr pennaeth y gwasanaeth, pennaeth y gwasanaeth a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio'r staff.
- Gwnaethom edrych ar y dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu holiaduron i ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, darparwyr a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**7. Y Gymraeg**
Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Derbyniwyd y cynnig rhagweithiol ar yr achlysur hwn. Gwnaethom gynnal ein cyfweliadau â chyflogeion yr awdurdod lleol yn ogystal â phobl a oedd wedi cael gwasanaeth a/neu eu gofalwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y gwiriad gwella hwn.

**8. Cydnabyddiaethau**
Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer.  Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo gymryd camau. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n golygu bod yr awdurdod lleol yn methu â chyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |

| | |
|---|---|
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant a chyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at atgyfnerthu'r cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |
| **Adroddiad Llechen Lân** | Adroddiad a luniwyd gan Gyngor Gwynedd sy'n ystyried yr heriau y mae'n eu hwynebu wrth gefnogi oedolion mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Mae'n gwneud argymhellion o ran sut y gall ymateb i'r heriau. Llechen Lân: gwasanaethau cymdeithasol pobl hŷn i'r dyfodol |
| **Dull Tyfu Eich Hun ('*Grow Your Own*')** | Mae hyn yn cyfeirio at y modd y mae awdurdodau lleol yn denu ac yn recriwtio pobl i'w gwasanaethau ac yna'n helpu cyflogeion presennol i feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn camu ymlaen i'r lefel nesaf. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffiniadau o Niferoedd**

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 99% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai na 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |

## Rhaglen Waith Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Gwynedd yn ymateb i Adroddiad Arolwg Gwasanaethau Oedolion Gwynedd gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) – Hydref 2024

| Thema: Pobl | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes i'w gryfhau** | **Cynlluniau eisoes ar waith neu cynlluniau o'r newydd** | **Sylwadau / Rhwystrau** | **Pwy sydd yn arwain** | **Amserlen** |
| Mae trefniadau gweithwyr cymorth y Cyngor yn enghraifft o ymarfer da, a byddai'n elwa mwy o ofalwyr di dâl pe byddai'r gwasanaeth yn fwy cyson. | • Trafodaethau wedi cychwyn i sefydlu trefn/rheolaeth llinell fwy sefydlog ar gyfer y tîm, fel bod trefniadau goruchwyliaeth yn fwy cadarn. Y gobaith ydi gallu cynnig gwasanaeth fwy cyson ar draws y Sîr. | • Amgylchiadau ariannol llywodraeth leol yn debygol o gyfyngu ar y gallu i ymestyn y ddarpariaeth o leiaf yn y tymor byr. | SEJ/RhG | 30/09/2025 |
| Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau, yn unol â'i bolisi goruchwylio, bod cofnodion cyson ar gael ar draws y gwasanaethau o oruchwyliaeth gyda aelodau staff. Dylid sicrhau fod y cofnodion hefyd yn benodol ac yn gyson yn adlewyrchu'r ffocws sydd mewn lle ar llesiant staff a'r myfyrio sydd ar eu hymarfer. | • Neges wedi ei rannu i'r arweinyddion tîm yn eu atgoffa i sicrhau eu bod yn rhoi cofnod o'r sgwrs goruchwyliaeth yn y cofnodion achos. Hyn i'w fonitro fel rhan o drefn awdit ffeiliau.<br>• Cylchredeg copi o'r polisi goruchwyliaeth efo pob ymarferydd ac i'w drafod mewn cyfarfodydd tîm a goruchwyliaeth 1:1.<br>• Templed cytundeb goruchwyliaeth I'w gylchredeg a'i drafod mewn cyfarfodydd tim/goruchwyliaeth.<br>• Hyfforddiant Ymarfer Adlewyrchol i Addysgwyr Ymarfer a Mentoriaid wedi ei drefnu ar gyfer mis Chwefror 2025.<br>• Hyfforddiant egwyddorion Mentora ar gyfer gweithwyr proffesiynol maes gofal wedi ei drefnu. | | SEJ/MWJ/ MET | 31/03/2025 |
| Yn unol â'r Cod Ymarfer, Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), rhaid i asesiadau gynnwys y pum | • Grwp tasg adolygu ffurflen asesu wedi ei ffurfio. Bydd ffocws ar gryfhau y 5 elfen allweddol a canlyniadau personol. | • Trefn awdit ffeiliau wedi cychwyn Ionawr 2025. Cytundeb bod pob tîm a'r | SEJ/MWJ/ MET | 31/03/2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| elfen allweddol ac adlewyrchu sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau â phobl er mwyn nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y canlyniadau personol y maent yn dymuno eu cyflawni a'r cyfraniad y gallan nhw, eu teulu, eu ffrindiau a'r gymuned leol ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny. | • Ail gyflwyno canllaw canlyniadau personol i bob aelod staff.<br>• Hyfforddiant sgyrsiau cydweithredol a canolbwyntio ar ganlyniadau i staff.<br>• Cynnal awdit o gefnogaeth ddydd y gwasanaeth anabledd dysgu gan ymgynghorydd allanol gyda'r bwriad o gydweithio i ganolbwyntio ar lais a cryfderau yr unigolyn.<br>• Treialu trefn newydd awdit ffeiliau. Dogfen wedi ei llunio a'i thrafod efo arweinyddion tîm. | Penaethiaid Cynorthwyol perthnasol yn cwblhau un awdit yn fisol. | | |
| Rhaid i'r awdurdod lleol wella'r data y mae'n eu casglu am asesiadau a chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i asesu a oes angen gofal a chymorth ar ofalwr (neu a yw'n debygol y bydd angen gofal a chymorth arno yn y dyfodol) ac os felly, pa anghenion sy'n debygol o fod ganddo. Rhaid i'r arweinwyr hefyd sicrhau bod pobl a gofalwyr di-dâl yn cael eu cyfeirio'n briodol at wybodaeth, cyngor, cymorth neu wasanaethau ataliol a gwasanaethau cymunedol eraill, gan gynnwys | • Grwp data gofalwyr wedi ei ffurfio er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau Oedolion a Plant yn gyson yn cofnodi ac adrodd ar asesiadau gofalwyr gan gynnwys asesiadau ar y cyd.<br>• Grwp tasg a gorffen wedi ei ffurfio i adolygu y ffurflen asesiad a cryfhau elfennau yn ymwneud a gofalwyr.<br>• Hyfforddiant gofalwyr yn rhan o raglen flynyddol yr Adran.<br>• Ffurflen awdit ffeiliau wedi ei addasu i sicrhau fod materion Gofalwyr yn cael eu craffu.<br>• Rhaglen waith adolygu trefniadau drws ffrynt yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | • Cyllid ar gyfer talu am adnodd ychwanegol i gefnogi'r gwaith wedi dod i ben. | AGW/SG<br><br>SEJ/MWJ/<br>MET | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwasanaethau yn y trydydd sector, p'un a oes ganddynt gynllun gofal a chymorth ffurfiol ai peidio. | | | | |
| Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael cynnig taliad uniongyrchol yn gyson os oes ganddynt anghenion cymwys am ofal a chymorth, a lle y gallai taliad uniongyrchol eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Rhaid cofnodi'n glir pan gaiff yr opsiwn hwn ei gynnig, gan nodi hefyd y rhesymau dros wrthod lle bo hynny'n berthnasol. | • Fel rhan o'r gwaith adolygu ffurflen asesu, bydd sylw yn cael ei roi i sut gallwn ymgorffori y 'cwestiwn' am daliadau uniongyrchol fel fod cofnod o'r cynnig a'r rheswm pam na chafodd yr opsiwn ei gymryd i fyny.<br>• Bydd y drefn awdit ffeiliau yn gwirio bod y cynnig Taliadau Uniongyrchol wedi ei gofnodi a'r rheswm dros wrthod.<br>• Hyfforddiant taliadau uniongyrchol i'r gweithlu i'w drefnu i gyd fynd gyda canllawiau sydd wedi eu datblygu, fel y gallwn sicrhau ein hunain fod pawb yn glir o'r drefn.<br>• Canllawiau staff a llyfryn gwybodaeth i unigolion wedi eu llunio.<br>• Mae'r gwasanaeth cefnogol Taliadau Uniongyrchol wedi ei fewnoli ac wedi dechrau datblygu perthynas agosach gyda'r timau gwasanaethau cymdeithasol.<br>• Mae derbynwyr taliadau uniongyrchol presennol wedi trosglwyddo i ddarparwyr cyflogres gwahanol a'r hawl ganddynt i symud i ddarparwr arall os ydynt eisiau, hyn yn rhoi llais a rheolaeth i bobl dros eu TU ei hunain.<br>• Mae cynnydd yn nifer y cwmnïau meicro sydd wedi'u sefydlu i gefnogi pobl sydd angen cefnogaeth drwy taliadau uniongyrchol. | | MWJ/MET/<br>SEJ/AGW | 30/06/2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae llif TU wedi'i ddatblygu, sy'n amlygu'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn sefydlu pecyn gofal a chefnogaeth o dan y drefn TU.<br>• Rydym wedi adnabod meysydd eraill amrywiol lle bydd angen ystyried datblygiad pellach (e.e. cefnogaeth i PAs gan gynnwys hyfforddiant amrywiol). | | | |
| Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu cynnig yn brydlon a hynny mewn modd hygyrch. | • Grwp tasg eisoes wedi ei sefydlu i adolygu'r trefniadau IAA.<br>• Adolygu y wefan a'n ffurflenni/pamffledi gwybodaeth ayyb, gan drio sicrhau cysondeb mewn arddull ayyb. | • Amgylchiadau ariannol llywodraeth leol yn debygol o gyfyngu ar y gallu i gryfhau capasiti er cyflawni'r holl welliannau ddymunir o leiaf yn y tymor byr. | SEJ/MWJ/ MET | |
| **Thema: Atal** | | | | |
| Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i waith i hyrwyddo'r opsiynau gofal a chymorth sydd ar gael gan gynnwys nifer y micro-ofalwyr sydd ar gael, yn unol â'i ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau ataliol. | • Parhau i hyrwyddo y gwasanaeth i sefydlu a chefnogi micro ofalwyr. Ymgorffori'r rôl yma efo rôl datblygu cofrestr o gymhorthyddion personol sydd ar gael i gefnogi pobl drwy daliadau uniongyrchol.<br>• Parhau i hyrwyddo gwaith yr hybiau cymunedol.<br>• Parhau i ehangu'r opsiynau technoleg sydd ar gael i hybu annibyniaeth, gan gyfrannu at ddatblygiad deallusrwydd artiffisial yn y maes gofal yng Nghymru. | • Nifer o gynlluniau ataliol/cymunedol yn cael eu ariannu gan grantiau tymor byr.<br>• Diffyg cydnabyddiaeth yn genedlaethol o'r adnodd sydd ei angen i roi mewn i ddatblygu deallusrwydd artiffisial yn y Gymraeg. | | |
| Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael ymateb cymesur ac amserol sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. | • Rhaglen waith i wella trefniadau drws ffrynt y gwasanaeth wedi ei sefydlu.<br>• Monitro drwy drefniadau goruchwyliaeth ac awdit ffeiliau.<br>• Rhaglen waith adolygu i sicrhau fod y ddarpariaeth gofal yn addas a chymesur | • Pwysau gwaith a rhestrau aros yn ei sgil.<br>• Amgylchiadau ariannol llywodraeth leol yn debygol o gyfyngu ar y gallu i gryfhau capasiti er cyflawni'r holl | SEJ/MWJ/ MET | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ac ystyried ffyrdd amgen o gwrdd ac amcanion (technoleg, darpariaethau cymunedol ayb).<br>• Ystyried trefn llwyth gwaith ‘active’ ac ‘inactive’ ar draws gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod unigolion sydd eisioes yn adnabyddus yn cael eu penodi i weithiwr cyfarwydd/tymor hir, cael sylw prydlon ac atal iddynt fynd drwy’r sustem fel achos newydd bob tro mae newid unrhyw yn eu sefyllfa. | welliannau ddymunir o leiaf yn y tymor byr. | | |
| Dylai'r awdurdod lleol barhau i adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd, a sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd mewn perthynas ag adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn unol â'r terfynau amser statudol. | • Grwp tasg yn adolygu’r ffurflen adolygu wedi ei gwblhau. Cynnydd yn nifer yr adolygiadau sydd wedi eu cynnal ers cyflwyno’r ffurflen newydd.<br>• Swyddi adolygu newydd dros dro wedi eu sefydlu ar gyfer 2024/25.<br>• Ystyriaeth i drefn llwyth gwaith ‘active ac ‘inactive’ gan ei fod yn fwy tebygol o amlygu achosion sydd angen adolygiad a hynny gan weithiwr sy’n adnabyddus iddynt | • Pwysau gwaith a rhestrau aros yn ei sgil<br>• Dim sicrwydd cyllideb i barhau efo swyddi ychwanegol adolygu ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. | SEJ/MWJ/ MET | Parhaus |
| Rhaid i'r awdurdod lleol flaenoriaethu ei gynllun gwaith ar gyfer lleihau amseroedd aros am ofal cartref. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl, a gofalwyr di-dâl, yn cael cymorth amserol ac yn atal anghenion rhag gwaethygu. | • Mae’r Grŵp Prosiect Gofal Cartref eisoes wedi sefydlu rhaglen waith gyda ffrydiau gwaith penodol i fynd i'r afael â’r heriau sy’n wynebu gofal cartref ar bob lefel gweithredol o’r system. Cyflwynwyd adroddiad i Cabinet y Cyngor 11/02/2025 yn argymell addasu rhan Gwynedd Ofalgar o Gynllun y Cyngor i roi sylw i flaenoriaeth briodol i’r angen i ymateb i’r heriau yma. Bydd yr addasiadau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ar gyfer 2025/26 a thu hwnt a’r cynnydd yn cael ei fonitro a’i | • Amgylchiadau ariannol llywodraeth leol yn debygol o gyfyngu ar y gallu i ymestyn y ddarpariaeth o leiaf yn y tymor byr.<br>• Capasiti staffio yn y maes yn her. | AD/AGW/ SEJ/RhG | 30/09/2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | graffu trwy'r trefniadau herio perfformiad sefydlog.<br>• Sicrhau bod trefniadau a rolau mewn lle i fonitro a gwirio rhestrau aros yn gyson fel rhan o waith dyddiol y timau oedolion.<br>• Sicrhau bod y timau oedolion a darparwyr gofal cartref yn cydweithio'n effeithiol i adnabod cyfleoedd i ryddhau oriau gofal cartref er mwyn lleihau'r rhestr aros. | | | |
| Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau comisiynu yn seiliedig ar ddata ystyrlon a'u bod yn cydymffurfio ag egwyddorion a gofynion y Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth: cod ymarfer. | • Ail afael yn y grŵp data Oedolion i fynd i'r afael a safon a cywirdeb ein data.<br>• Sicrhau fod ein trefniadau comisiynu wedi eu selio ar dystiolaeth o'r angen. Y broses yma wedi cychwyn efo'r trydydd sector ac yn y maes gofal cartref. | | AGW | 30/09/2025 |
| Rhaid i'r awdurdod lleol roi fframwaith sicrhau ansawdd cadarn ar waith a'i ymgorffori. Mae'r gwelliannau hyn yn hanfodol er mwyn craffu ar ddata i ysgogi gwelliannau i wasanaethau a sicrhau bod rheolwyr yn goruchwylio ymarfer rheng flaen yn well, gan sicrhau ei fod yn gyson â gweledigaeth y gwasanaeth a'r argymhellion ar gyfer ymarfer a nodwyd yn adroddiad Llechen Lân. | • Llawer o'r elfennau sicrwydd ansawdd yn bodoli ond angen dod a rhain i gyd at ei gilydd mewn fframwaith.<br>• Grwp tasg wedi ei ffurfio i lunio fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar gyfer yr Adran.<br>• Defnyddio'r awdit ffeiliau fel rhan allweddol o gyflawni hyn.<br>• Sicrhau bod yr Adran gyfan yn perchnogi'r fframwaith trwy drafodaethau a gweithgaredd y Tîm Rheoli Adrannol. | | AD/MET/<br>MWJ/SEJ/<br>RhG/AGW | 31/03/2025 |
| **Thema: Llesiant** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Galluedd meddyliol – Sicrhau bod asesiadau o alluedd o ansawdd gyda cofnodion da o'r trafodaethau a nodi ymateb y person air am air. | • Sicrhau bod asesu galluedd meddyliol yn rhan o raglen hyfforddiant yr Adran bob blwyddyn.<br>• Cryfhau'r gallu i gynnig cefnogaeth i staff drwy oruchwyliaeth.<br>• Cryfhau trefniadau cydweithio i sicrhau cefnogaeth yr Adran Gyfreithiol mewn perthynas ac achosion DOLS a COP Dol.<br>• Cynnal awdit ffeiliau i sicrhau ansawdd yr asesiadau galluedd meddyliol.<br>• Bid wedi ei gyflwyno i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau. | • Gallai amgylchiadau ariannol llywodraeth leol gyfyngu ar y gallu i gryfhau capasiti o leiaf yn y tymor byr. | MET/MWJ/<br>SEJ | Parhaus |
| Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion cyson yn cael eu llunio i ddangos bod unigolion yn cael gwybod am ganlyniad atgyfeiriadau diogelu. | • Wedi addasu y ffurflen diogelu er mwyn sicrhau fod cofnod yn cael ei wneud i dystiolaethu fod canlyniad y cyfeiriad yn cael ei adrodd i'r unigolyn.<br>• Monitro rheolaidd trwy drefniadau goruchwyliaeth ac awdit ffeiliau. | | MET/MWJ/SEJ | 30/09/2025 |
| **Thema: Partneriaeth** | | | | |
| Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn gwella canlyniadau i bobl drwy ddarparu gwasanaethau integredig effeithiol. | • Parhau i ymdrechu i gynnal a chryfhau'r berthynas gyda'r Bwrdd Iechyd yn enwedig trwy:-<br>1) Grwp Datblygu TAC<br>2) Grwp Prosiect Traws Glwstwr<br>3) Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Anableddau Dysgu rhwng y 6 Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd | | HDO/AD | Parhaus |

# Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4675A2025

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn | 4 |
| Ein dyletswyddau archwilio | 4 |
| Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn | 4 |
| Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad | 4 |
| Yr hyn a ganfuom | 4 |
| Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor | 9 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf yr archwiliad | 10 |

# Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

## Ein dyletswyddau archwilio

1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

2 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

3 Rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cartref.

# Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

4 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau ag uwch swyddogion a chynghorwyr. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024. Cyflawnwyd y gwaith ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd yn adolygu perfformiad yr awdurdod lleol o ran arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth.

5 Mae Cabinet y Cyngor ym mis Hydref 2024 wedi mabwysiadu y cyfeiriad strategol adnabuwyd yn Llechen Lan ac ei Gynllun Gweithredu. Yn yr un mis, mae y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi derbyn Adroddiad Archwilio Mewnol 'Gofal Cartref Preifat' a mae ymateb yr Adran wedi'i i gynnwys yn 'Rhaglen Waith Gofal Cartref 2024'.

# Yr hyn a ganfuom

6 Ar y cyfan, canfuwyd y canlynol gennym: **mae'r Cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu ei wasanaeth gofal cartref (y gwasanaeth) ond nid yw wedi adnabod fel blaenoriaeth yn Cynllun Adran Oedolion presennol i sicrhau gwelliannau o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

7 **Mae'r Cyngor wedi buddsoddi i ddeall y galw hirdymor sy'n wynebu'r gwasanaeth ond nid yw Cynllun Adran Oedolion presennol yn adnabod y her**

**o’r rhestrau aros a nid oes gan y Cyngor gynlluniau i sicrhau bod adnoddau digonol wedi glustnodi i ymateb i’r galw.**

8 Mae gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (yr Adran) Gynllun Gwasanaethau Oedolion 2024-25. Mae’r cynllun yn ddogfen gryno ac mae’n cynnwys blaenoriaeth o ‘ymwreiddio’r model Gofal Cartref newydd ym mhob is-ardal’ sydd wedi bod ar waith ers 2022. Er hynny, nid yw’n cydnabod yr heriau a wynebai’r gwasanaeth sy’n cynnwys rhestr aros sylweddol ar gyfer gofal cartref a gorwariant sylweddol.

9 Ym mis Hydref 2024 mabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd ei adroddiad ymchwil Llechen Lân, sy’n ystyried y twf disgwyliedig yng nghanran y bobl hŷn i gynyddu’n sylweddol dros yr ugain mlynedd nesaf oherwydd demograffeg. Mae’r adroddiad yn cydnabod y cynnydd yn y galw ynghyd â’r heriau cysylltiedig o ran gweithlu ac yn ariannol yn y tymor byr, canolig a hir.

10 Mae Llechen Lân yn darparu dealltwriaeth gynyddol i aelodau a swyddogion o'r bwlch rhwng argaeledd y gwasanaeth a'r galw. Mae yr Adran wedi creu ‘Cynllun Gweithredu Llechen Lan’ i ymateb themâu a adnabyddir yn yr adroddiad. Ond nid yw'r Cyngor na’r Adran wedi datgan bwriad clir gyda cherrig milltir eglur i ddatrys ei restrau aros am gymorth gofal cartref er mwyn mesur os yw’r ymyrraeth yn llwyddiannus.

11 **Mae gwendidau yn nealltwriaeth y Cyngor o berfformiad y gwasanaeth gofal cartref ac mae'n gorwario'n barhaus dros y gyllideb a ddyrannwyd**

12 Mae'r Adran yn holi sampl o deuluoedd a defnyddwyr ei gwasanaeth gofal cartref i'w helpu i ddeall barn pobl am y gwasanaeth . Tra bod gweithiwr cymdeithasol yn cadw cysylltiad gyda unigolion ar y rhestr aros, nid yw'r Cyngor yn casglu barn unigolion a theuluoedd ar y rhestr aros i ddeall ac adrodd ar yr effaith y mae methiant i ddarparu gwasanaethau yn amserol yn ei gael arnynt.

13 Ceir rhai enghreifftiau lle mae'r Adran yn defnyddio gwybodaeth feincnodi i gymharu ei darpariaeth gwasanaeth a pherfformiad, ond mae’n ymddangos bod cyfleoedd yn cael ei colli. Mae nifer yr unigolion ar y rhestr aros ar gyfer gofal cartref yng Ngwynedd yn gyson y mwyaf neu ail fwyaf yn genedlaethol ac mae gwelliannau ar ei hôl hi o gymharu a mwyafrif Awdurdodau Lleol gwledig tebyg. Yn ystod ein cyfweliadau, ni chafwyd fawr ddim esiamplau lle bu i’r Cyngor adnabod pa gynghorau, gwledig neu fel arall, sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf i leihau eu rhestrau aros a chasglu unrhyw gyfleoedd dysgu o brofiadau eraill.

14 Disgrifiodd swyddogion ac aelodau anhawster i gael dealltwriaeth glir o berfformiad y gwasanaeth. Mae’r canfyddiad hwn yn gyson â chasgliadau y mae swyddogion wedi’u llunio o’r Adroddiad Archwilio Mewnol sy’n nodi:

- gwendidau sylfaenol yn nhrefniadau rheoli contractau;
- pryderon ynghylch dibynadwyedd a chysondeb data rhestrau aros; a
- diffyg mynediad parod at wybodaeth am y galw fesul ardal a gwybodaeth ariannol.

Mae ‘Rhaglen Waith Gofal Gartref 2024’ yn adnabod materion sy’n codi o’r adroddiad. Ond nid yw Cynllun Adran Oedolion cyfredol yn adnabod pwysigrwydd

cyflawni materion adnabyddir yn ‘Rhaglen Waith Gofal Gartref 2024' a pwyntiau gweithredu Llechen Lan.

15 Nododd ein hadolygiad wahaniaethau yn y gwerthoedd ar gyfer mesurau galw allweddol a gyhoeddwyd yn lleol ac a gyflwynwyd yn genedlaethol, sy'n enghraifft arall sy'n dynodi diffygion yn nhrefniadau ansawdd data adrannol.

16 Nid yw cynllunio gwasanaeth yn sicrhau bod cynlluniau a chyllidebau yn gynaliadwy. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod Alldro Refeniw ar gyfer 2024, ac Adroddiad Monitro Cyllideb diweddaraf 2025 yn adrodd gorwariant o £1.2 miliwn ar gyllideb o tua £10 miliwn ar gyfer y gwasanaeth gofal cartref.

**Arddangosyn 1: cymhariaeth o Gwariant i Gyllideb y Gwasanaeth**

| | **Cyllideb (£miliynau)** | **Gwariant (£miliynau)** | **Gorwariant (£miliynau)** |
|---|---|---|---|
| Alldro Refeniw ar gyfer 2023-24 | 9.554 | 10.781 | 1.227 |
| Rhagolwg 2024-25 yn Mis 5 Diwedd Awst | 10.163 | 11.384 | 1.221 |

17 Yn ogystal â’r gorwariant a adroddwyd gan adroddiadau monitro’r gyllideb, mae adroddiadau perfformiad y gwasanaeth yn cydnabod rhestr aros ychwanegol sef 19% (157 o unigolion) dros ben y gwasanaeth a ddarparwyd yn 2023-24 a 13% (105 o unigolion) yn 2024-25 (hyd Awst). Mae'r gost o ddarparu'r gwasanaeth na ddarparwyd yn ychwanegol i’r sefyllfa a nodwyd mewn adroddiadau cyllideb. Mae’r Cyngor o’r farn bod pryderon am ansawdd data mewnol a cenedlaethol yn golygu nad oedd ffigyrau rhestrau aros yn gwbl gywir a dibynadwy i fod yn sail i gymharu.

18 Nid yw systemau ac adroddiadau'r Cyngor yn darparu gwybodaeth integredig am y galw ar y gwasanaeth llaw yn llaw gyda gwybodaeth ariannol. Adroddir y wybodaeth ariannol ar wahân i'r wybodaeth am alw sy'n cyfyngu ar allu aelodau a swyddogion i gael dealltwriaeth lawn o berfformiad gwasanaeth yn hwylus. Mae adroddiad Llechen Lân yn cyfuno adrodd ar lefelau galw a gweithgaredd gyda gwybodaeth ariannol, ac yn amcangyfrif gwerth darparu gofal i'r unigolion ar y rhestr aros yn 2023-24 i fod yn £2.1 miliwn, a chyfanswm cost galw am wasanaeth yn £13.9 miliwn. Mae’r adolygiad Archwilio Mewnol yn nodi aneffeithlonrwydd mewn arferion rheoli contract sy'n lleihau cyfanswm cost y galw.

19 Mae adolygiad o gyfansoddiad cyllideb 2024-25 yn **Arddangosyn 2** yn awgrymu’n glir bod gwahaniaeth sylweddol rhwng y gyllideb gymeradwy a dynodiad Llechen Lân o angen, hyd yn oed wedi gwaredu aneffeithlonrwydd mewn trefniadau rheoli contractau a nodwyd gan yr archwiliad mewnol.

**Arddangosyn 2: cyfansoddiad Cyllideb Gofal Cartref Cyngor Gwynedd 2024-25**

| | (£miliynau) |
|---|---|
| Cyllideb 2023/24 | 9.553 |
| Codiad chwyddiant | 0.797 |
| Arbedion a throsglwyddiadau adrannol | - 0.687 |
| Cais refeniw parhaol | 0.500 |
| Cyllideb 2024/25 | 10.163 |
| Asesiad angen 2023-24 yn unol â Llechen Lân | 13.900 |

20 Mae'r Cyngor yn defnyddio astudiaethau achos a straeon unigol i ddangos canlyniadau gwell o ddarparu'r gwasanaeth i unigolion. Fodd bynnag, ni fydd y cyngor yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl tra:

a. bod unigolion yn aros am wasanaethau ar restrau aros sydd gyson yr uchaf neu ail uchaf yn genedlaethol;

b. nad yw'r Cyngor yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol; ac

c. nid oes gan y Cyngor hyder mewn data, gwybodaeth a phrosesau i gefnogi gwneud penderfyniadau da.

21 **Mae diffyg Cynllun Adran clir gydag uchelgais a cherrig milltir eglur i fesur cyrhaeddiant yn atal goruchwyliaeth a chraffu effeithiol.**

22 Mae'r Adran wedi datblygu dangosfwrdd sy'n adrodd ar ddangosyddion allweddol sy'n caniatáu iddi fonitro perfformiad cyfredol ac a ddefnyddir yn rheolaidd ar gyfer adrodd ar berfformiad cyfredol. Er hynny, nid yw Cynllun Adran Oedolion yn datgan yr uchelgais ac nid yw ychwaith wedi nodi cerrig milltir ar gyfer adfer gwasanaethau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i fesur os yw ymyraethau yn llwyddiannus.

23 Mae Llechen Lân a'r adroddiad Archwilio Mewnol, a gyhoeddwyd wedi hynny ym mis Hydref 2024, wedi adnabod nifer o gamau gweithredu i ymateb i ddiffygion a chefnogi adferiad gwasanaethau. Mae Cynllun Gweithredu Llechen Lan yn adnabod sawl ffrwd gwaith gyda camau gweithredu CAMPUS. Ond gan nad yw'r Cynllun Adran Oedolion yn datgan y canlyniadau y maent yn bwriadu, nid yw y Cyngor yn lleoli ei hun i allu gwerthuso os yw buddsoddiad wedi bod yn llwyddiannus ac yn darparu gwerth am arian.

24 Dosberthir adroddiadau cyfarfodydd cefnogi a herio perfformiad adrannol i grŵp cyfyngedig o aelodau gan gyfyngu ar dryloywder a mewnbwn gan gynrychiolaeth ehangach o aelodau.

25 Ar adeg yr adolygiad nid oedd pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ystyried adroddiadau perfformiad adrannol yn rheolaidd. Mae dau gynrychiolydd o'r pwyllgorau craffu yn mynychu rhai o'r cyfarfodydd cefnogi a herio perfformiad i arsylwi yn unig. Bydd

gallu'r pwyllgor i graffu'n effeithiol ar gyflawni canlyniadau llwyddiannus yn gyfyngedig oherwydd absenoldeb cynllun gwasanaeth clir sy'n amlinellu'r nodau i'w cyflawni ynghyd â cherrig milltir eglur.

26 Ym mis Medi 2024 cynhaliodd y Pwyllgor Craffu Gofal adolygiad o Ofal Cartref a nododd bryderon am restrau aros, gofynnodd am ddata i hwyluso cymhariaeth a gofynnodd am ddiweddariad gan yr Aelod Cabinet ynghylch lleihau costau a gwella ansawdd y data.

27 Mae cofrestr risg y Cyngor wedi nodi'r Gwasanaeth fel risg, ond nid yw prosesau ymyraethau gan y Cyngor na'r Adran wedi llawn ddatrys yr heriau presennol hyd yma. Mae cofrestr risg yr Adran a'r Cyngor yn cydnabod 'Pe na bydd darpariaeth gofal ddigonol ac effeithlon ar gyfer gofal cartref...'ac mae camau lliniaru yn cynnwys 'darparu gofal digonol'. Serch hynny, er bod y Cyngor o'r farn bod y camau lliniaru yn lleihau tebygolrwydd y risg o ddigwydd, nid yw'r risg wedi'i leihau nes bod y mesurau lliniaru wedi'u cwblhau'n llwyddiannus.

28 Wrth adolygu'r risg hon, fe wnaethom nodi nad yw'r gofrestr risg yn cael ei hadrodd yn gyhoeddus yn rheolaidd. Nodwyd hefyd nad yw trefniadau rheoli risg yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Argymhellion ar gyfer y Cyngor

**Arddangosyn 3: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
|---|
| **Cynllun Gwasanaethau Oedolion**<br>A1 Dylai'r Cyngor ddatblygu Cynllun Adran Oedolion sy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu gofal cartref, sydd yn perchnogi rhaglen waith yn deillio allan o adroddiadau Llechen Lan ac Archwilio Mewnol, a phennu uchelgeisiau clir a cherrig milltir cysylltiedig i ddarparu nodau clir a gwella'r gallu i olrhain cynnydd. |
| **Cyllidebau**<br>A2 Dylai'r Cyngor adolygu cyllideb y gwasanaeth, gan gynnwys adnoddau ychwanegol i gwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. |
| **Gwybodaeth a Systemau**<br>A3 Dylai'r Cyngor ddatblygu ei brosesau a'i systemau gwybodaeth, comisiynu ac ariannol i ddarparu gwybodaeth integredig gadarn am weithgareddau a chostau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn awr ac yn y dyfodol. |
| **Sicrhau Gwerth am Arian**<br>**A4** Dylai'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau i asesu a yw'r adnoddau y mae'n eu dyrannu yn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i werthuso a yw'r gwasanaeth yn darparu gwerth am arian ac i wella'r broses o wneud penderfyniadau. |

# Atodiad 1 – Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

Prif gwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau i ddarparu gwasanaethau gofal cartref?

| Cwestiynau lefel 2 | Meini prawf |
|---|---|
| A oes gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r gofynion presennol ac y dyfodol ar ei wasanaethau gofal cartref? | • Mae swyddogion yn nodi'r galw a ragwelir dros y tymor byr, canolig a hir, ynghyd â'r gallu i ateb y galw.<br>• Mae cynllun darparu gwasanaethau mabwysiedig yn cydnabod ac yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth.<br>• Mae aelodau ac uwch swyddogion yn deall ac yn cefnogi'r dull o ymateb i fylchau rhwng argaeledd gwasanaethau a'r galw.<br>• Mae'r Cyngor yn cymharu ei ddarpariaeth a'i berfformiad â chyfoedion ac yn ystyried ystod eang o opsiynau i wella darpariaeth gwasanaethau.<br>• Mae swyddogion yn defnyddio gwybodaeth galw presennol a rhagdybiaethau galw rhesymol yn y dyfodol i lywio cynllunio gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn nodi mesurau a cherrig milltir sy'n cefnogi darparu gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn modelu'r effaith ddisgwyliedig ar wasanaethau yn y tymor canolig i'r tymor hir. |

| | |
|---|---|
| A oes gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o berfformiad ei gwasanaethau gofal cartref? | • Mae unigolion a theuluoedd yn ymwneud â dylunio eu gwasanaethau.<br>• Mae dealltwriaeth o beth mae pobl yn ei feddwl o'i wasanaeth gofal cartref.<br>• Mae cynllunio gwasanaethau yn sicrhau bod cynlluniau a chyllidebau yn realistig.<br>• Mae gwybodaeth perfformiad gwasanaeth yn alinio gweithgaredd â gwybodaeth ariannol.<br>• Mae gwybodaeth perfformiad yn cyfleu dealltwriaeth o'r canlyniadau gwell o ddarparu'r gwasanaeth, a'r gwahaniaeth y mae'n ei gael.<br>• Mae swyddogion yn defnyddio deallusrwydd o dueddiadau a newidiadau i leihau'r galw ar y gwasanaeth.<br>• Mae cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys amcangyfrifon o'r adnoddau sydd eu hangen yn y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli risg ar waith, gan gynnwys prosesau uwchgyfeirio effeithiol. |
| A yw trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwylio perfformiad gwasanaeth yn rheolaidd? | • Mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am fonitro darpariaeth y gwasanaeth gofal cartref, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir.<br>• Mae adroddiadau rheolaidd o berfformiad gwasanaeth ac ariannol i aelodau er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu.<br>• Mae'r cynllun darparu gwasanaethau yn cynnwys y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth, adnoddau ychwanegol sydd ar gael a faint o gynnydd y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i ymateb i'r heriau hynny.<br>• Mae gan aelodau adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ddarparu newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth, trawsnewid ac arbedion er mwyn galluogi goruchwylio a chraffu. |

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. ’ yn croesawu cysylltu a cyswllt ffôn yn Cymraeg a Saesneg .

# Ffurflen Ymateb Rheolwyr

Archwilio Cymru
Audit Wales

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad cwblhau:** Ionawr 2025

**Cyfeirnod dogfen:** 4675A2025

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb rheolwyr<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Cynllun Gwasanaethau Oedolion**<br>Dylai'r Cyngor ddatblygu Cynllun Adran Oedolion sy'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu gofal cartref, sydd yn perchnogi rhaglen waith yn deillio allan o Adroddiad Llechen Lan ac Archwilio Mewnol, a phennu uchelgeisiau clir a cherrig milltir cysylltiedig i ddarparu | • Mae'r Grŵp Prosiect Gofal Cartref eisoes wedi sefydlu rhaglen waith gyda ffrydiau gwaith penodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gofal cartref ar bob lefel gweithredol o'r system. Cyflwynwyd adroddiad i Cabinet y Cyngor 11/02/2025 yn argymell addasu rhan Gwynedd Ofalgar o Gynllun y Cyngor i roi sylw a blaenoriaeth briodol i'r angen i ymateb i'r heriau yma. | 01/04/2025 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | nodau clir a gwella'r gallu i olrhain cynnydd. | Bydd yr addasiadau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun ar gyfer 2025/26 a thu hwnt a'r cynnydd yn cael ei fonitro a'i graffu trwy'r trefniadau herio perfformiad sefydlog.<br>• Bydd Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn perchnogi y rhaglen waith, gyda arweinwyr penodol i'r dair ffrwd gwaith ;<br>**Systemau a phrosesau** – Pennaeth Cynorthwyol Busnes a Chomisiynu<br>**Darpariaeth mewnol** – Pennaeth Cynorthwyol Darparu Mewnol<br>**Gwreiddio'r ffordd o weithio** – Pennaeth Cynorthwyol Oedolion | 01/04/2025 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| A2 | **Cyllidebau**<br>Dylai'r Cyngor adolygu cyllideb y gwasanaeth, gan gynnwys adnoddau ychwanegol i gwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb | • Fel cam cyntaf mae Cabinet y Cyngor eisoes wedi awdurdodi addasiadau i strwythur y gyllideb i adlewyrchu gwir wariant.<br><br>• Bydd y gyllideb ar gyfer darparu gofal hefyd yn cael ei dosrannu fesul ardal Tîm Adnoddau Cymunedol. | 01/04/2025<br><br>01/04/2025 | Pennaeth Cyllid a Pennaeth Oedolion<br><br>Cyfrifydd Grŵp (Oedolion) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. | | | |
| A3 | **Gwybodaeth a Systemau**<br>Dylai'r Cyngor ddatblygu ei brosesau a'i systemau gwybodaeth, comisiynu ac ariannol i ddarparu gwybodaeth integredig gadarn am weithgareddau a chostau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn awr ac yn y dyfodol. | • Fel rhan o'r Rhaglen Waith Gofal Cartref mae sylw penodol ar ddatblygu systemau gwybodaeth a data addas a phriodol a sicrhau perchnogaeth a rheolaeth i'r rolau mwyaf perthnasol a gweithredol yn y maes/system gofal cartref | 01/04/2025 | Pennaeth Cynorthwyol – Busnes a Chomisiynu / Pennaeth Cynorthwyol Oedolion |
| A4 | **Sicrhau Gwerth am Arian**<br>Dylai'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau i asesu a yw'r adnoddau y mae'n eu dyrannu yn gwireddu'r manteision a fwriadwyd i werthuso a yw'r gwasanaeth yn darparu gwerth am arian ac i wella'r broses o wneud penderfyniadau. | • Gwerthuso parhaus o'r model gofal cartref er mwyn gweld i ba raddau mae'r manteision a fwriadwyd wedi dwyn ffrwyth.<br>• Ail edrych a negodi lefel yr oriau gofal cartref ym mhob is ardal, er mwyn sicrhau fod lefel ddigonol o ofal ar gael yn yr is ardaloedd, dim mwy a dim llai.<br>• Rhoi mwy o berchnogaeth i'r gweithlu ddylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â gofal cartref yn yr is-ardaloedd | 30/09/2025<br>30/09/2025<br>30/09/2025 | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>Pennaeth Cynorthwyol Busnes a Chomisiynu / Pennaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Annog diwylliant o fentergarwch, creadigrwydd a hyblygrwydd ymysg y gweithlu a bod sgyrsiau o'r fath yn digwydd yn lleol gyda darparwyr fel aelodau llawn o'r timau TAC | 31/03/2026 | Cynorthwyol Oedolion<br>Pennaeth Cynorthwyol Darparu Mewnol |

**Gweledigaeth**:

- Rydym wedi clywed am weledigaeth "Well North Wales" – fedrwch egluro beth yw'r weledigaeth ac sut y bydd Gwynedd yn elwa o hyn?

- Beth yw gweledigaeth BIPBC ynghylch ysbytai bach – beth fydd rôl ysbytai bach cymunedol i'r dyfodol yn eich barn?

**Doctoriaid a gwasanaethau dyddiol eraill (sydd ddim yn wasanaethau brys):**

- Beth mae'r Bwrdd Iechyd am ei wneud er mwyn galluogi cleifion i weld doctoriaid lleol yn fwy rhwydd ac felly osgoi i unigolion fynd i A&E i gael cymorth?

- Beth yw dyfodol y gwasanaethau mân anafiadau ym marn y Bwrdd Iechyd, gan gofio'r cyd-destun y gall hyn osgoi i unigolion fynd i A&E gael cymorth a chreu pwysau ar ysbytai?

**Fferyllfeydd a deintfeydd**

- Pam bod hi'n cymryd mwy o amser i agor rhai fferyllfeydd newydd? Mae enghreifftiau o gymunedau newydd yn cael fferyllfa newydd mewn ychydig fisoedd ond eraill yn gorfod disgwyl bron i flwyddyn.
- Pam ei bod hi yn anodd i gael deintyddion gwasanaeth iechyd mewn ardaloedd gwledig fel Meirionydd? Beth ydych chi'n ei wneud er mwyn ceisio datrys y sefyllfa?

**Ambiwlans**:

- Datganwyd sefyllfa o argyfwng gan y gwasanaeth ambiwlans dros y Nadolig. Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i leihau'r amseroedd disgwyl y tu allan i ysbytai?

- Ydi colli pencadlys Ambiwlans Awyr Caernarfon am gael effaith negyddol ar Ysbyty Gwynedd?

**Canoli gwasanaethau**

A oes bwriad i symud mwy o wasanaethau neu adrannau arbenigol o Ysbyty Gwynedd i ysbytai mewn ardaloedd mwy trefol?

**Gwasanaeth fasciwlar:**

- Yn sgil y newid i ddarpariaeth gwasanaeth fasciwlar oedd yn cael ei leoli yn Ysbyty Gwynedd rhai blynyddoedd yn ôl, a bellach i fod wedi ei ganoli yn Ysbyty Glan Clwyd, rydym ar ddeall fod nifer fawr o gleifion yn cael eu trosglwyddo i Stoke a Lerpwl am driniaeth. Beth yw strategaeth hir dymor y Bwrdd iechyd ar gyfer y gwasanaeth fasciwlar a chadw pobl yn lleol (gan osgoi teithio pell i bobl ee o Aberdaron)

**Iechyd Meddwl:**

- Daeth y gwasanaeth integredig iechyd meddwl rhwng Cyngor Gwynedd a'r bwrdd iechyd i ben. Fedrwch esbonio beth yw'r ddarpariaeth newydd gan y Bwrdd iechyd, ac a yw'n well neu'n waeth na'r gwasanaeth blaenorol? Sut mae' o'n cael ei fonitro a beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaeth?

- Oes gan y Bwrdd Iechyd fwriad i gynyddu capasiti gwlâu Iechyd Meddwl i atal cynifer o unigolion orfod mynd i ysbytai ar draws Lloegr?

- A oes cynlluniau i gynyddu'r nifer o feddygon adran/section.12 er mwyn hwyluso cwblhau asesiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn amserol?

- Oes bwriad i gynyddu y nifer o staff o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol er mwyn cyfarch y rhestrau aros?

**Gwasanaethau canolraddol ataliol**

- Oes sylw yn cael ei roi i'r diffyg therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion cymunedol ar gyfer gwasanaethau canolraddol ataliol ar draws Gwynedd?

**Gofal Iechyd Parhaus**

- Mae Gofal Iechyd Parhaus yn wasanaeth iechyd pwysig iawn i gefnogi unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd dwys a'u teuluoedd. Pam fod y broses Gofal Iechyd Parhaus mor gymhleth a hirwyntog, a panel 'sicrwydd ansawdd' **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** yn gwrthod argymhellion tîm amlddisgyblaethol proffesiynol mor aml (MDT) ? Golyga hyn bod amgylchiadau rhai pobl wedi newid cyn cael penderfyniadau a bod perygl i hyn arwain at sefyllfaoedd lle nad ydi unigolion yn cael y gefnogaeth iechyd arbenigol sydd ei angen arnynt.

**Gwella systemau a chyfathrebu**

- A oes gwir werthfawrogiad o'r cyfraniad all cysoni sustemau data a chyfathrebu rhwng Iechyd a Gofal ei wneud i effeithiolrwydd y system gyfan? Beth yw bwriadau y Bwrdd Iechyd o ran blaenoriaethu hyn?